

ECO'R WYDDFA

Rhif 250

TACHWEDD 1998

Pris 30c

Dilyn cwrs Electroneg yn y Brifysgol



Disgyblion Ysgol Brynrefail sy'n dilyn cwrs lefel-A mewn Electroneg ym Mhrifysgol Cymru Bangor. O'r chwith i'r dde: Geraint Owen, Gethin Williams, Rory O'Donnell gyda Gwynfor Jones.

Yr Eco'n creu cysylltiad



Mae sawl rhaglen deledu yn dod â phernasau neu gyfeillion at ei gilydd wedi blynyddoedd o fod ar wahân i'w gilydd. Ac mae'n siŵr eich bod wedi darllen mewn cylchgronau aml stori am bobl yn cyfarfod â pherthynas nad oeddent yn gwybod cynt am eu bodolaeth. Erbyn hyn gall yr Eco ymfalchïo iddo fod yn gyfrwng i ddod a dau at ei gilydd wedi bwlch o hanner can mlynedd.

Yn rhifyn Gorffennaf 1997 o'r Eco roedd gennym lun dwy wraig o Fôn, Lily Hughes, Llanbedr-goch a'i ffrind Morwenna Williams, Llanfairpwll, ar lan bedd ym Mynwent Ryfel y Canadiaid yn Adegem, ger Brugge, Gwlad Belg. Yr unig fanylion a roddwyd dan y llun oedd mai bedd John Hayes, Victoria Yard, Llanberis ydoedd a'i fod wedi ei ladd ar 19 Medi 1944 yn 24 mlwydd oed. Nid oeddem yn gwybod mwy am yr hanes, ac ni wyddem am unrhyw gysylltiad rhwng yr un o'r ddwy wraig â John Hayes. O ran a wyddem ni, wedi digwydd taro ar y bedd roedd y merched tra'n ymweld â'r fynwent fel y gwna miloedd ar eu gwyliau bob blwyddyn. Ac mae'n debyg bod y rhan fwyaf ohonom a welodd y stori wedi tybio mai cyddigwyddiad ydoedd mai enw canol Lily Hughes yw Hayes.

Erbyn hyn cawsom y stori'n llawn gan Mrs Lily Hughes, ac mae gan yr Eco ei hun ran yn y stori honno.

Roedd Lily'n gweithio mewn ffatri yn Llanberis yn ystod y Rhyfel a chyfarfu â John (Jack) Hayes a oedd yn y fyddin ar y pryd. Yn 1944 priododd y ddau ond yn anffodus, â hwythau ond yn briod am chwe mis, cafodd Jack ei ladd yn Lommel yng Ngwlad Belg. Wedi hynny aeth Lily adref i Fôn at ei theulu. Ymhen amser bu iddi ailafael mewn bywyd a phriodi a magu teulu. Hanner can mlynedd a mwy wedi colli Jack cafodd gyfle i ymweld â'i fedd a llun o'r ymweliad hwnnw wrth gwrw a anfonwyd i'r Eco.

Ond dechrau stori arall oedd hynny. Mae Tom Jones, Llainwen Isaf, Llanberis yn anfon copi o'r Eco yn gyson at

ffrind iddo yn Coventry. Dangosodd y ffrind hwnnw y llun i ŵr o'r enw Derek Craddock, gan wybod bod gan Derek gysylltiadau teuluol â Llanberis. Ond yr oedd gan Derek fwy o ddiddordeb byth yn y llun o gofio mai Hayes oedd cyfenw ei fam cyn iddi briodi a'i bod hi'n hanu o Lanberis. Wedi chwilio hanes y teulu sylweddolodd Derek mai bedd ei frawd oedd yr un yn y llun.

Wedi hynny cysylltodd Derek â Lily dros y ffôn. Bu peth llythyr rhyngddynt ac erbyn hyn maent wedi cyfarfod â'i gilydd gan fod Derek a'i briod, Denise, wedi bod yn aros yn Sir Fôn ac wedi ymweld â Lily. Maent hefyd wedi cyfarfod â Morwenna a'i phriod, Iorwerth, yntau o Lanberis ac un oedd gyda Jack pan gafodd ei ladd.

Wrth anfon y stori atom mae Mrs Lily Hughes yn diolch i'r Eco am ddod a thipyn o hapusrwydd i fywyd ei theulu wedi'r holl flynyddoedd. Rydym ninnau'n ddiolchgar iddi am rannu'r stori â ni, ac yn falch o glywed am y rhan a chwaraeodd yr Eco yn y stori honno.

Mae myfyrwyr chweched dosbarth sy'n astudio Electroneg fel pwnc lefel-A mewn nifer o ysgolion lleol yn dilyn y cwrs trwy fynychu dosbarthiadau ym Mhrifysgol Cymru Bangor. Yn cael ei ddarparu gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd, mae'r cwrs yn cynnig cipolwg ar sut y bydd technoleg gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio i ddysgu yn y dyfodol. Lleolir y cwrs yn yr Ysgol Peirianeg Electronig a Systemau Cyfrifiadurol gan ganiatáu i'r disgyblion ddefnyddio offer y Brifysgol, ond mae'r myfyrwyr yn medru parhau gyda'u gwaith ar gyfrifiadur tra yn yr ysgol, tra bod arweinydd y cwrs yn medru arolygu eu gwaith o bell a chael cyfrifiadur i farcio eu gwaith yn awtomatig!

'Mae arddull y cwrs Electronig yn rhoi pwyslais ar "ddysgu trwy wneud" yn hytrach nag arddull dysgu traddodiadol,' meddai Stephen Yates o Cynnal, sy'n arwain y grŵp. 'Mae hyn yn paratoi'r myfyrwyr ar gyfer addysg bellach, lle mae'r cyfrifoldeb dros ddysgu yn gorwedd gyda'r unigolyn. Mae'r myfyrwyr lefel-A yn ymweld â'r Brifysgol am dair awr bob dydd Gwener ac mae ganddynt dasgau i'w cwblhau. Gallent barhau gyda'u gwaith yn ôl yn yr Ysgol a chyflwyno gwaith drwy'r cyfrifiadur. Gall y cyfrifiadur farcio gwaith y myfyrwyr gan nodi manau anhawster yr unigolyn. Mae hyn yn galluogi i mi roi mwy o amser i'r myfyrwyr unigol yn hytrach na mynd dros waith gyda'r holl grŵp.'

Dywedodd Peter Fish, o'r Ysgol Peirianeg Electroneg a Systemau Cyfrifiadurol fod y Brifysgol yn croesawu mentrau sy'n galluogi myfyrwyr ysgol i gael rhagflas ar addysg Prifysgol. 'Mae'r offer sy'n cael ei ddefnyddio gan fyfyrwyr y chweched dosbarth hefyd yn cael ei ddefnyddio gan ein myfyrwyr "mynediad eang", mae'r myfyrwyr hyn yn dilyn cyrsiau gradd pedair blynedd o hyd mewn peirianeg electroneg neu systemau cyfrifiadurol er nad oes ganddynt y cefndir traddodiadol mewn mathemateg a ffiseg,' meddai.

ECO'R WYDDFA

Rhif 250
Tachwedd 1998
Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon
Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug
(673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, TACHWEDD 26

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, TACHWEDD 16

Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD COPI	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU A
RHAGFYR	TACHWEDD 16	TACHWEDD 26	CAEATHRO	Mr Clive James

Llythyrau

Cyrsiau am ddim i ffermwyr a'u teuluoedd

Mae Uned Technoleg Gwybodaeth y 'Telecabana' yn dod i ardal Caernarfon o 16 Tachwedd hyd 23 Tachwedd 1998.

Mae'r tiwtoriaid yn arbenigo mewn addysgu ffermwyr a'u teuluoedd sut i ddefnyddio cyfrifiaduron mewn modd eglur a phernasol gan ystyried lefel gwybodaeth (neu anwybodaeth!) pob unigolyn o gyfrifiaduron.

Cynigir hyfforddiant fesul sesiynau 2½ awr, rhai yn y bore, rhai yn y pŵn ac eraill gyda'r nos.

Mae'r sesiynau hyffordd i'w cael fel a ganlyn:

*Cyflwyniad i Ddechreuwyrr
Bas Data
Taenlenni
Prosesu Geiriau (sylfaenol ac uwch)
Cyflwyniad i'r We
Creu Tudalen ar y We
Desk Top Publishing
Agridata
Rhaglen i Ffermwyr Llaeth
Cyfrifon*

Os oes gennych chi ddiddordeb yna cysylltwch â:

**Menai Evans
CYMAD**

**Parc Busnes Porthmadog
Porthmadog LL49 9GB
neu ffoniwch
(01766) 512300.**

**COFIWCH FOD Y CYRSIAU HYN
AR GARREG EICH DRWS
AC YN RHAD AC AM DDIM.**

URDD GOBAITH CYMRU

Gwobrau'r Mileniwm i'r Ifanc

Annwyl Ddarllenwyr,

Er mwyn dathlu'r Mileniwm newydd ymhlith pobl ifanc, mae'r Cyngor Prydeinig wedi sefydlu Gwobrau'r Mileniwm i'r Ifanc. Prif bwrpas y gwobrau yw i ddarparu oedolion ifanc efo'r cyfle i ennill profiad rhyng-wladol a datblytu eu hunain mewn modd a fydd yn arwain tuag at gyfoethogiad o'u cymuned leol, yn enwedig y rheini sydd trwy eu hymlygiad efo'r gymuned yn cael cyswllt uniongyrchol efo pobl ifanc eraill. Bydd y profiad hwn yn golygu gwelliant i'w

gweithgareddau presennol wedi iddynt ddechreuedd.

Mae'r cynllun yn agored i ysgogiad, diddordeb a brwdfrydedd pobl ifanc o fewn unrhyw gymuned. Rhoddir grant o isafswm o £1000 i unigolion neu grŵp o hyd at 4 o bobl sydd rhwng 18 a 28 mlwydd oed sydd naill ai yn byw neu yn gweithio ar hyn o bryd ym Mhrydain.

Rhoddir grant i unigolion neu grwpiau sy'n dymuno gwneud prosiect sydd yn deillio o un o'r tri prif weithgaredd yma:

1. *Dysgu trwy ddadansoddiad cymharol a phrofiad ymarferol.*
2. *Ymgymryd â hyfforddiant a fydd yn gwella eu sgiliau o fewn gwaith cymunedol.*
3. *Cynrychioli'r gymdeithas leol mewn cyd-destun Ewropeaidd neu fyd-eang.*

Os hoffech fwy o fanylion neu becyn, sydd wedi'i baratoi gan y Cyngor Prydeinig, sy'n cynnwys ffurflen gais, dylid cysylltu efo fi, Siân Thomas yn Swyddfa'r Urdd, Cross Hands. Y rhif ffôn ydi (01269) 845705.

Edrychaf ymlaen i glywed gan bobl ifanc Cymru.

Yn gywir,

SIÂN THOMAS

*Swyddog Datblygu Abertawe,
Nedd a Phort Talbot*

CAIS

Bu CAIS yn darparu gwasanaeth cyngor arbenigol ynghylch alcohol yng ngogledd Cymru er 1981, gan ddatblygu gwasanaeth cyngor ynghylch cyffuriau yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf hyn.

Eleni gwelwyd cynnydd o 15% yn y galw am wasanaeth cyngori. Bellach cyfeirir 350 o bobl at CAIS bob blwyddyn i dderbyn cyngor, gyda 250 o bobl yn cael eu cyfeirio am driniaeth ddiddifnu breswyl yn Hafan Wen, yr uned a adeiladwyd yn bwrpasol at y diben hwnnw, yn Wrecsam.

Caiff cyngorwyr CAIS eu hyffordd a'u goruchwylio hyd at y safonau a bennir gan yr asiantaeth genedlaethol y Cyngor Alcohol, dan Gynllun Hyfforddi Cyngorwyr Alcohol Gwirfoddol (CHCAG/VACTS). Bydd CAIS yn cynnal gwasanaeth cyngori o ganolfannau a leolir trwy ogledd Cymru i gyd gan gydweithio â darparwyr gwasanaeth alcohol a

chyffuriau eraill a'r Canolfannau Cyngori.

Ar hyn o bryd mae CAIS yn recriwtio gwirfoddolwyr newydd i'w hyfforddi yn gynghorwyr cyffuriau ac alcohol, ac fe roddir croeso arbennig i wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith.

Mae nodweddion personol y cynghorydd yn holl bwysig ac mae CAIS yn chwilio am bobl sydd ag agwedd gydymdeimladol ac anfeirniadol; pobl sy'n awyddus i gael eu hyfforddi, a phobl sydd ag empathi tuag at bobl sy'n camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, i ddod yn wirfoddolwyr.

Mae'r broses o recriwtio gwirfoddolwyr newydd ar waith yn awr a bydd y cwrs hyfforddi yn dechrau yn y flwyddyn newydd, wedi cwblhau'r gwaith o ddewis gwirfoddolwyr. Os carech chi dderbyn ffurflen gais, dyma'r cyfeiriad:

**CAIS Cyf (Cwrs CHCAG)
Tŷ Tyldesley**

Ffordd Clarence

Llandudno LL30 1TW

Gellir cael mwy o wybodaeth gan Anne Mart ar (01492) 871285.

Wavell Roberts CIGYDD London House LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**



Y GAMPFA CANOLFAN IECHYD A FFITRWYDD

(Perchennog: D. M. A. Lee)

DEINIOLLEN

Ffôn:

(01286)

872 240

Angen cymorth gyda'ch ffurflen treth incwm?

Angen gwell sistem ariannol ar gyfer eich busnes?

Angen cymorth gyda'ch chyfrifon?

Cysylltwch â

GORONWY HUGHES

Tel/Ffacs (01286) 674839

E-Bost gorchug@global.net.uk

Gweinyddiaeth Ariannol i Fusnesau Bach

Siop Cigydd Gorau'r Wlad?

Fel 'Pen Cigydd y Fro' y mae Wavell Roberts o Lanrug yn hysbysebu yn *Eco'r Wyddfa* ond mae'n bosibl y gall hysbysebu fel 'Pen Cigydd Cymru' os daw llwyddiant i'w ran mewn cystadleuaeth genedlaethol a drefnir gan gylchgrawn y diwydiant cig, *Meat Trades Journal*. Mae eisoes wedi ennill ei le yn ail rownd y gystadleuaeth ac o fewn y dyddiau nesaf bydd y beirniaid yn ymweld â'i siop i asesu gwahanol agweddau o'r busnes.

Nid yw ennill cystadlaethau yn ddiethr iddo. Am y saith mlynedd ddiwethaf mae wedi ennill gwobrau yng nghystadlaethau Cyngor Gwerthwyr Cig Gogledd Cymru, a hynny yn adrannau'r pasteiod a'r selsig gorau. Bu hefyd yn Bencampwr Selsig Cymru yn 1995. Ac mae'r cyfan yn cael eu paratoi yn y gegin y tu cefn i'r siop ar brif stryd y pentref. Bellach, mae cymaint o dystysgrifau a thlysau yn hongian yn ei siop ag sydd o gig! Ac nid pobl leol yn unig yw ei gwsmeriaid; daw archebion yn rheolaidd gan ymwelwyr sydd wedi cael blas ar ei gynnyrch tra yma ar wyliau. Yn wr, mae rhai pwysi o selsig yn gadael yn achlysurol am Kent, Stoke a Swydd Caer.

Pedair yn unig o siopau Cymru sydd drwedd i'r ail rownd a byddant yn cystadlu yn erbyn siopau cigyddion eraill o'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Bydd hyn yn dilyn ymweliad y beirniaid â'r holl siopau i asesu ansawdd y cir a werthir, taclusrwydd, effeithiolrwydd a chwreisi'r staff, glanweithdra'r siop, a chynlluniau marchnata a hysbysebu'r busnes i'r dyfodol. Gwahoddir un ar hugain o gigyddion i Lundain ym mis Chwefror 1999 pryd y dyfernir y prif wobrau. Bydd gwobr i Brif Siop Cigydd Prydain, saith o wobrau eraill i wahanol ranbarthau, a gwobr arbennig i'r Siop Fechan Orau.

Noddir y gystadleuaeth gan wahanol Gomisiynau Cig a Da Byw Gwledydd Prydain, yn ogystal ag un o gwmnïau cyfanwerthu'r diwydiant cig, Scobie and Junor. Y siopau eraill o Gymru yn y gystadleuaeth yw Hancocks o Fynwy, Eynons o San Clêr, a J. T. Vernon o Holt.



AUR ETO!

Yn dilyn llwyddiant Wavell yng nghystadleuaeth y siop cigydd orau, daeth y newyddion i'w selsig cartref ennill un o brif wobrau y gogledd-orllewin mewn cystadleuaeth yn Haydock, Swydd Gaerhirfryn, ddydd Sul, 18 Hydref. Roedd cystadleuwyr yno o ogledd Cymru, Swyddi Caer, Stafford a Chaerhirfryn yn ogystal â Lerpwl a Manceinion. Mae'r gystadleuaeth yn cael ei chynnal er mwyn hyrwyddo rhagoriaeth mewn cynnyrch cig a daeth nifer helaeth o gigyddion i Westy'r Haydock Thistle gerllaw'r cae rasio ceffylau. Ar wahân i gigyddion teuluol fel Wavell, roedd yno hefyd gigyddion sy'n gyfanwerthwyr ac felly roedd y gystadleuaeth yn un go arbennig. Ond enw Wavell Roberts o Lanrug ddaeth i'r brig yn adran y selsig porc traddodiadol, gan ennill iddo y wobwr gyntaf a thystysgrif aur. Yn sicr, dyma hwb arall i'w obeithion am ennill cystadleuaeth y siop cigydd orau.

Gwella Stryd Fawr Deiniolen



Mae partneriaeth unigryw yn cydweithio i wella golwg y Stryd Fawr yn Neiniolen. Mae pawb sy'n gyfarwydd â'r pentref yn gwybod bod y gwifrau sy'n gwau uwchben y Stryd Fawr yn anharddu'r pentref. Mae MANWEB yn bwriadu mynd ati'n fuan i osod y gwifrau trydan o dan y ddaear ar hyd y Stryd Fawr.

Erbyn hyn mae asiantaethau eraill fel Cyngor Gwynedd, y Cyngor Cymuned, BT ac ArcusHSB wedi cyfuno adnoddau er mwyn sicrhau y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yr un pryd.

Dywed Mr Bill Landels, Rheolar-gyfarwyddwr Manweb, bod y cwmni, 'yn falch o gael bod yn rhan o'r bartneriaeth hon fydd yn gweithio er gwella amgylchedd y pentref. Trwy gynlluniau o'r fath rydym wedi ymrwymo ein hunain i wneud ein rhan er gwella amgylchedd Cymru yn ogystal â sicrhau cyflenwad trydan o safon

uchel i'n cwsmeriaid.'

Wrth osod y gwifrau o dan y ddaear bwriedir gwneud gwaith pellach ar y Stryd Fawr, fel atgyweirio adeiladau a gwella'r palmentydd a'r ffordd.

'Gall y math yma o gydweithio a threfnu ar y cyd rhwng y prif asiantaethau fod o les mawr i Ddeiniolen,' yn ôl Mr Dewi Williams, Syrfewr Adeiladu Siartredig gydag ArcusHSB. Mae'r cwmni hwnnw'n cynorthwyo'r gwahanol asiantaethau i drefnu'r gweithgarwch ar y cyd er budd gobeithio i drigolion y pentref.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Mewn cyfarfod o'r Cyngor talodd y Clerc deyrnged i'r diweddar Bobbie Williams, Deiniolen. Bu Mr Williams yn aelod ffyddlon o'r Cyngor am flynyddoedd lawer. Cyfeiriwyd at ei ffyddlondeb i'r cyfarfodydd ac am ei wasanaeth di-flino i sawl mudiad yn Neiniolen dros y blynyddoedd. Yn sicr fe deimlwn golled ar ei ôl yn y Cyngor.

Enwebwyd Alun Wyn Evans i gynrychioli'r Cyngor ar Weithgor Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis. Amlygodd aelodau Rhiwlas eu pryder ynglŷn â

chyflwr y gysgodfan aros b ysiau. Mae'r Cyngor wedi penderfynu ers tro byd i beidio gwastraffu mwy o arian y trethdalwyr i dalu am gostau fandaleiddio.

Os oes unrhyw fudiad gwirfoddol yn awyddus i'r Cyngor ystyried cais am rodd — bydd yn ofynnol anfon cais **CYN TACHWEDD 4**. Ni ellir ystyried unrhyw gais ar ôl y dyddiad hwnnw. Hefyd rhaid anfon **Mantolen Ariannol lawn** gyda pob cais.

DAFYDD OWEN TRYDANWR

Pob math o waith trydanol a Larwmau Lladron

Aelod o'r



11 Rhes Faenol LLANBERIS

Ffôn: (01286) 871680



Ar agor Llun - Sadwrn
drwy'r haf
9.00a.m. — 4.00p.m.
Ffôn: (01286) 650 721



Noson Mins Pei

NOS WENER, 27 TACHWEDD

am 7.00 o'r gloch

Dewch draw i weld ein dewis eang o anrhegion a theganau ar gyfer y Nadolig

Archebwch eich coed a thorchau Nadolig a pheidiwch anghofio am gacennau a phwdin Dolig o'r Antur



ANTUR WAUNFAWR

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisrwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

O SIAMBAR SELWYN

Sut le ydi Greenland? Dyna ofynnwyd i mi gan sawl cyfaill ar ôl i mi ddychwelyd o'r fordaith i Wlad yr Iâ, Canada a Greenland. Taith o 7,765 o filltiroedd, i gyd ar Fôr yr Iwerydd ar wahân i un diwrnod pan roeswyd Môr y Gogledd o Dover i Bergen yn Norwy.

Ond i ateb y cwestiwn. Greenland? Hyd yn hyn does 'na fawr o dwristiaid yn hel eu pac i fynd i'r lle anghysbell hwn. Greenland yw'r ynys fwyaf yn y byd ac mae 85% o'r ynys hon o dan iâ trwchus gydol y flwyddyn. I chi gael rhyw syniad o faint yr ynys, mae o'r de i'r gogledd yn 1,725 o filltiroedd ac mae ar draws o'r dwyrain i'r gorllewin ar gyfartaledd o 625 milltir. Gyda llaw, mae tewder yr iâ tua 2.5 kilometr. Poblogaeth Greenland yw 55,000 gyda'r rhan fywaf ohonynt yn byw ar arfordir y de-orllewin, oherwydd fe ellir cyrraedd y rhan honno o'r ynys gyda llongau bron drwy gydol y flwyddyn.

Oes 'na ffyrdd yn Greenland? Oes o fewn y trefi ond does 'na'r un ffordd yn cysylltu y gwahanol drefi â'i gilydd. Mae hyd yn oed y plant lleiaf yn gorfod aros yn yr ysgolion dros y tymhorau. Byddai'n gwbl amhosibl i blant ddod i'r ysgolion yn ddyddiol oherwydd does dim ffyrdd ac yn y gaeaf fyddai 'na ddim gobaith teithio herwydd yr eira. Mi fûm i mewn un ysgol mewn pentre o'r enw Qassiarsuk lle roedd y plant yn byw ac yn dysgu gyda'i gilydd am wythnosau lawer heb allu mynd adre at eu rhieni. Roedd y plant yn hapus iawn. Byddai'n gwbl amhosibl iddynt gael cwmni plant i gyd-chwarae â hwy yn eu cartrefleoedd.

83 o bobl sy'n byw yn Qassiarsuk a bugeilio yw eu gwaith. Mae'r pentre hwn yn lecyn hanesyddol oherwydd dyma'r lle y sefydlodd yr Ewropeaid cyntaf yn y flwyddyn 982. Enw'r arweinydd oedd Erik the Red (Eric Cochyn) o bosib i roi enw barddol iddo!

Mae gweddillion y fferm a fu'n gartre iddo, a cherrig sylfaen yr eglwys, yn weladwy heddiw. O'r llecyn hwn hefyd, yn y flwyddyn 1000, yr hwyliodd Leif the

Lucky, sef mab Eric Cochyn, ar ei fordaith enwog pryd y darganfyddodd gogledd America, sef ynysodd Newfoundland a Baffin. Cofiwch felly i Leif the Lucky (Leiffi Lwcus) ddarganfod America cyn Mr Christopher Columbus. Lle roedd Madog yn y rês ys gwn i?

Prifddinas Greenland yw Nuuk, neu Godthaab yn iaith y brodorion, a'i ystyr yw *good hope*. Dyma'r dre fwyaf gyda 13,000 o drigolion. Yma mae prifysgol y wlad, yr amgueddfa genedlaethol ac, wrth gwrs, y Senedd.

Oddi yma hefyd y mae Santa Clôs yn anfon ei gyfarchion blynyddol i holl blant bach y byd. Croes i'r arferiad, yntê! Plant fel arfer sy'n anfon at Santa.

Mae Greenland yn dod o dan adain Denmarc ond ers 1979 cafwyd hunanlywodraeth yno, sy'n caniatáu i'r ynyswyr wneud eu penderfyniadau ynglŷn â polisiau cartref ac hefyd i raddau helaeth eu polisiau tramor. 31 o aelodau sydd yn Senedd Greenland ac yn Senedd Denmarc mae yna ddau aelod sydd wedi eu hethol gan bobl Greenland. Mae ganddyn nhw eu gorsaf deledu a'u gorsaf radio sy'n darlledu eu rhaglenni eu hunain, yn ogystal â rhaglenni o Denmarc.

Yr iaith swyddogol yw Greenlandic ond gall y mwyafrif siarad Daeneg fel ail-iaith. Mae addysg yn rhad ac am ddim yno ac mae pob plentyn yn gorfod cael 11 mlynedd o addysg gynradd. Yna mae hawl ganddynt i adael ysgol naill ai i ysgol uwch ac yna i goleg, neu i ddysgu crefft.

Mae'r rhan fwyaf sy'n graddio yn gwneud eu cwrs prifysgol yn Denmarc. Hefyd mae gofal iechyd yn rhad ac am ddim yno. Ceir ysbytai yn y trefi mwyaf, clinigau yn y trefi llai, ac mae

nyrsus yn y pentrefi. Bydd hofrennydd wrth law i gludo rhai sydd mewn argyfwng i'r ysbytai agosaf. Os na ellir sicrhau triniaeth yn Greenland yna fe drefnir i hedfan y claf naill ai i Denmarc neu Glwad yr Iâ.

Sut le ydi Greenland? Lle mawr, lle anial, lle oer, ac yn sic yn lle diddorol gyda bryniau, weithiau mynyddoedd o 'eisbergs' yn gwyllo'r glannau.

Wrth gychwyn o Nuuk ar ein taith dros ran arall o For Iwerydd i gyfeiriad Newfoundland a Nofa Scotia, trawodd y llong *Black Watch* yn erbyn eisberg ac fe fu panig am ychydig — yn enwedig

o gofio fod cwrs y llong ar y pryd ar y llwybr lle suddodd y *Titanic*. Oedd roedd y daith o Nuuk i Quebec yn 1,480 o filltiroedd môr.

Roedd taith pum gwaith o gwmpas dec 7 y *Black Watch* yn filltir union. Oeddwn, roeddwn i'n codi am chwech bob bore ac yn cerdded dwy filltir.

Er i ni orffen y daith yng ngwres llethol Bermuda a'r Bahamas, rhowch i mi unigrwydd ac oerni Greenland unrhyw ddydd. Ydi, mae Greenland yn wlad ddiddorol. Ydi wir, ac yno, heb os, mae Santa Clôs yn byw.

Y Wobr Arian i Tudur!



Mae'n siŵr fod pum mlynedd ar hugain gyda'r un cwmni yn ymddangos fel breuddwyd i weithwyr yr oes hon, ond dyna'n union beth mae un aelod o staff Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis yn ei ddathlu.

Eleni bydd Owain Tudur Jones, swyddog arddangosfeydd a dogfennaeth yr Amgueddfa, yn dathlu chwarter canrif gydag Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru.

Ymunodd Tudur â'r Amgueddfa Genedlaethol ar 1 Hydref 1973 wedi iddo raddio mewn Celfyddyd Gain o Goleg Goldsmith, Llundain, gan ddechrau ei yrfa fel technegydd gyda gwasanaeth ysgolion gan lunio gwahanol fodolau at ddefnydd ysgolion ledled Cymru.

Yn 1980 symudodd i'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan i ddarparu darluniau a lluniadau i'r adran gyhoeddi. Daeth i fyny yma i'r gogledd yn 1989 i weithio fel swyddog arddangosfeydd yn Oriol Eryri, Llanberis lle bu'n gyfrifol am gydlynu nifer helaeth o arddangosfeydd gan gynnwys Argraffiadau o Fenis, Tecstilïau gan Eirian Short ac, yn arbennig, Bugail Eryri gan Keith Bowen.

Yn 1996 symudodd i Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis gan barhau gyda'r gwaith o drefnu arddangosfeydd ond gan gychwyn hefyd ar waith o ddogfennu creiriau'r Amgueddfa.

'Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod wedi mwynhau pob agwedd ar

fy ngwaith gyda'r Amgueddfa Genedlaethol ar hyd y blynyddoedd,' meddai Tudur, a gafodd ei eni a'i fagu ym Methesda, ac sydd bellach yn byw yn Llanrwst gyda'i wraig Thelma a'i fab Huw. 'Pan oeddwn i'n gweithio gyda'r gwasanaeth ysgolion cefais brofiad o waith technegol . . . ac yna yn Sain Ffagan cefais gyfle i weithio ar y bwrdd lluniadau a chynhyrchu lluniadau, darluniau ac arwyddion graffeg.

'Mae mwy o waith trefnu yn Llanberis ac rwyf wedi bod yn cydweithio ag arlunwyr lleol i gynnal arddangosfeydd yn Oriol Eryri ac yma yn yr Amgueddfa Lechi. Mae'r Amgueddfa Lechi yn gyffrous iawn a chredaf fod iddi ddyfodol disglair. Gobeithio y gallaf barhau i weithio yma!'

Drwy gydol ei amser yn yr Amgueddfa mae Tudur wedi bod yn brysur yn paentio ac, ar wahân i'w deulu, dyma ei wir gariad.

'Rydw i wedi bod yn hoff o gelfyddyd erioed ac wedi bod yn tynnu lluniau a phaentio ers pan oeddwn i'n ddim o beth. Does dim sy'n rhoi mwy o bleser i mi na mynd i ben mynydd y Berwyn am y dydd i beintio. Os galla' i aros yn yr Amgueddfa a dal i baentio yna mi fydda' i'n hapus iawn.'



CARPEDI GERAIN T OWEN

**GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC**

FFONIWC H UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

AM OFFER TŶ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

'Un funud fach . . .' A'R TYWYDD

Mae'n debyg mai eitemau digon diflas oedd bwletinau tywydd y teledu cyn dyddiau Michael Fish ac Ian MacCaskell a ddaeth ag elfen o ddiddanwch i'r busnes tywydd. Mae gennym ninnau'r Cymry ein cymeriadau o gyflwynwyr erbyn hyn. Ers tro bellach mae'r rhagolygon Cymreig yn rhoi i ni restr o bentrefi, llawer ohonynt yn fach a diarffordd, er mwyn dangos y tywydd o ardal i ardal. Cawn wybod y bydd iddi fwrw glaw yn Blaengweche a Brynhoffnant, ond iddi fod yn sych yn Burwen a Bwlch-y-dar. Oer yfory yn Llanenddwyn a Llanfflewyn a gwyntog yn Llanllwch a Llangan.

Nid oes gennyf y syniad lleiaf lle mae rhai o'r pentrefi y bydd pobl y tywydd yn sôn amdanynt. Ac nid yw clywed bod 'Llanllwch yn y de' a 'Burwen yn y gogledd' fawr o help chwaith i'r rhan fwyaf ohonom ddeall y rhagolygon. Ond rhaid canmol y cyflwynwyr am geisio rhoi gwedd Gymreig a lleol i'r rhagolygon . . . ac am ein helpu yr un pryd i ddod i adnabod Cymru'n well!

Wrth gwrs mae yna rai bob nos fydd yn cael y rhagolygon yn berthnasol iddynt hwy. Pan glywais un noson y byddai'n braf drannoeth yn y Fach-wen roedd gobaith am dywydd braf yn Llanberis hefyd. Doedd y rhagolygon am y Fach-wen yn golygu dim i'r rhan fwyaf o'r gynulleidfa ond roedd yn berthnasol i ni sydd o fewn tafliad carreg i'r lle.

Mae llawer o bobl yn gweld Efengyl Iesu Grist yn gwbl amherthnasol i'w bywydau. Mae'r neges am aberth Calfaria yn golygu cyn lleied iddynt ag yw'r rhagolygon ar gyfer Llanllwch neu Llangan i'r rhelyw ohonom. Ond y fath wahaniaeth geir pan yw'n gwawrio arnom bod â wnelo'r cyfan â ni. Un peth yw gwybod am Iesu Grist a'i hanes, ond peth cwbl wahanol yw gweld ei fod wedi byw a marw *dros ofi*; ei fod yn *fy ngharu i*; ei fod yn ffrind ac yn Waredwr *i mi*. Mater o ryfeddod mawr ydyw i'r Cristion bod Duw wedi anfon Iesu Grist i'r byd *er ei fwyn ef neu hi*.

Neges bersonol iawn sydd gan yr Efengyl ar ein cyfer, yn cyhoeddi cariad a thrugaredd Duw tuag atom ni. Ac mor braf yw sylweddoli bod â wnelo neges fawr y Beibl â ni; a'i bod rywsut yn fwy o Fach-wen o neges nag o Llangan.

JOHN PRITCHARD

DATBLYGIAD CYFFROUS YN ERYRI Llanberis i'w farchnata fel 'Porth i'r Parc'

Mae Gweithgor Padarn wedi sicrhau grant o £235,000 o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop — y grant mwyaf erioed i'w gynnig o'r gronfa arbennig hon. Bydd strategaeth marchnata gwerth £½ miliwn yn cael ei wario dros y tair blynedd nesaf i sefydlu pentref Llanberis fel prif ganolfan gwyliau Parc Cenedlaethol Eryri. Mewn oes pan fo atyniadau twristaidd yn cystadlu yn erbyn eu gilydd i ddenu ymwelwyr, mae Gweithgor Padarn yn gyfuniad o bump o atyniadau cwbl unigryw i Lanberis, sef Mynydd Gwefru, Rheilffordd Llyn Padarn, Rheilffordd yr Wyddfa, Parc Gwledig Padarn ac Amueddfa Lechi Cymru; a bu cydweithio brwd a chytûn rhyngddynt i lunio'r cais a ddaeth a grant mor syleddol iddynt.

Meddai Colin Ford, Cadeirydd y Gweithgor a Chyfarwyddwr Amgueddfa ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, 'Bydd yr arian yn ein galluogi i barhau i gydweithio'n effeithiol'. Eglurodd ymhellach mai, 'ein cam nesaf fydd esbonio'r cynllun i'r gymuned leol gan sicrhau trwy hynny fod y manteision a ddaw yn sgil y gwariant yn lledaenu trwy'r ardal'. I'r perwyl hwnnw, bydd y Gweithgor yn trefnu cyfarfodydd yn ystod y mis nesaf fydd yn gwahodd aelodau o'r Cynghorau Cymuned lleol, unigolion a phobl busnes yr ardal i ymuno ac i gynnig cymorth gyda'r fenter.

Rhyngddynt mae'r pump atyniad twristaidd yn cyflogi 124 o weithwyr yn llawn-amser, sef gwerth £1.8 miliwn o gyflogaeth. Ar sail gwaith ymchwil a baratowyd ar gyfer y cais, credir y gellir cynyddu'r gweithlu ac ymestyn y tymor gwyliau. Amcangyfrifir fod 10 miliwn o ymwelwyr yn teithio i Barc Cenedlaethol Eryri yn flynyddol, gyda tua chwarter y nifer yn ymweld â Llanberis. Y dasg sy'n wynebu'r Gweithgor yw perswadio ymwelwyr a threfnwyr gwyliau fod yr atyniadau sy'n bodoli yn ardal Llanberis yn ddigonol i'w perswadio i aros am fwy o amser yn y pentref ac i ymestyn eu gwyliau yno.

Mae'r Amgueddfa Lechi eisoes wedi gwario £2.1 miliwn ar ddatblygiadau newydd a ddenodd 10% yn fwy o

ymwelwyr yno eleni. Mae Mynydd Gwefru hefyd wedi gwario £0.7 miliwn, ac y mae cynllun gan Rheilffordd Llyn Padarn i ymestyn y lein yn nes i'r pentref yn golygu gwariant o £0.5 miliwn.

Bydd yr ymgyrch farchnata yn parhau dros dair blynedd gan anelu at gynhyrchu mwy o fusnes, denu pobl i ymweld a'r ardal fwy nag unwaith, a thargedu mathau arbennig o ymwelwyr. Rhai o'r prif amcanion fydd pwysleisio hygyrchedd yr ardal i ranbarthau gogledd-orllewin a chanolbarth Lloegr yn ogystal â gogledd-ddwyrain Cymru; a photensial yr ardal fel cyrchfan gwyliau gydol y flwyddyn.

Mae'r strategaeth farchnata yn cynnwys nifer o syniadau i ddenu mwy o ymwelwyr i aros yn yr ardal, gan gynnwys cyhoeddi cylchlythyr yn y gwanwyn a'r hydref fydd yn cael ei ddsbarthu i drefnwyr gwyliau er mwyn rhoi gwybodaeth iddynt am ddigwyddiadau, gweithgareddau a datblygiadau o fewn yr ardal a'r Parc yn gyffredinol. Bwriad arall yw datblygu a chynnal bas-data o weithgareddau a grwpiau o ddiddordeb arbennig er mwyn eu cylchlythyr'n rheolaidd. Gwahoddir trefnwyr gwyliau o wahanol rannau o Brydain i Lanberis gan gynnal arddangosfeydd a phenwythnosau agored er mwyn egluro a dangos potensial yr ardal fel cyrchfan gwyliau. Yn sgil hyn, gwahoddir ysgrifennwyr taith i fynychu'r cyfarfodydd gan ganolbwyntio ar wahanol weithgareddau o ddiddordeb arbennig. Caiff cyfran o'r arian ei ddefnyddio i gyflogi rheolwr prosiect llawn-amser dros y tair blynedd i gario allan strategaeth ar ran y Gweithgor.

Cafwyd cymorth parod i baratoi'r cais gan Uned Ewropeaidd Cyngor Gwynedd, ac meddai Geraint Jones, Prif Weithredwr y Cyngor, 'Mae'n dangos beth y gellir ei wneud drwy gydweithio'n effeithiol gyda phartneriaethau o fewn i'r gymuned leol. Fe ddaw a manteision pendant i Lanberis.'



SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCHI! HOLWCHI!
ffonlwch (01286) 830609

— TENEUWCH —
SLIM CHWIM MEWN DIM!

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil —
mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

 **Cig Bethel**

OEN CYMREIG LLEOL CYFAN
AM £1 Y PWYS

★

PORC LLEOL
AM 75c Y PWYS

★

PRISIAU ARBENNIG AM
GIG EIDION LLEOL

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

CHWILOTA

YR ARDDANGOSFA GENHADOL



Tair yn unig wnaeth ymateb i'r cais y mis diwethaf am fwy o wybodaeth, neu atgofion, am yr arddangosfa genhadol a'r pasiant a gynhaliwyd yng nghastell Caernarfon ym mis Mehefin 1929. Ydi, mae'n ymddangos fod hyd yn oed y flwyddyn honno yn rhy bell yn ôl i fwyafrif darllenwyr yr *Eco* ei chofio! Ac, yn wir, does ond rhyw ddwsin o rifynnau'r *Eco* i'w cyhoeddi nes bydd y ganrif hon yn 'ganrif ddiwethaf'. A bydd yr *Eco* wedi bodoli am chwe mlynedd ar hugain o'r ganrif honno.

Daeth y llythyr cyntaf i law oddi wrth Mrs Ceri Pierce Williams, cyn Ymwelydd Iechyd ardal Llanberis a Llanrug ac, fel mae'n prysuro i ddweud, 'fy 'mod i'n rhy ifanc i gofio'r achlysur!' Ei thad, Robert Pierce, oedd yn gyfrifol am gynllun yr arddangosfa yn y pafiliwn. 'Pensaer Cyngor Sir Gaernarfon oedd o, a gwnaeth lawer iawn o waith i Henaduriaeth Arfon ar hyd y blynyddoedd. Bu'n aelod ffyddlon ac yn flaenor yng Nghapel Moreia, Caernarfon am bron i hanner can mlynedd.'

Mae Mrs G. M. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug yn cofio'r pasiant. Dyma sydd ganddi i'w

ddweud am yr amser hwnnw: 'Aeth fy nhad, Tom Jones, i Bwyllgor yr Henaduriaeth a chan fod ganddo ddiddordeb yn y ddrama, ac yn gyfeillgar â Gwynfor a Cynan, awgrymodd i Cynan gyfansoddi Pasiant. Yr oedd Cynan wrth ei fodd a bu llawer o guro cefn am yr awgrym.'


Doedd Mrs Jones ddim yn cymryd rhan yn y pasiant, 'ond anghofia'i byth y wefr o weld y perfformiadau, a Jennie Williams (Jennie Garreg Fawr), adroddwraig o fri, gyda'i llais treiddgar ar noson braf o Fehefin. Cofiaf adran Llanberis a'r olygfa o'r Crynwyr yn gorchfygu trais yr Indiaid Cochion. "Gitshe manita"



GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

oedd geiriau pennaeth yr Indiaid: beth tybed yw ei ystyr?'

Golygfa arall a gofia Mrs Jones oedd, 'y Parchedig Gwilym Williams, Twrgwyn yn sefyll ar un o waliau'r castell efo'r greal sanctaidd ac yn canu a'i lais soniarus yn atsaïn dros lawntiau'r castell.'

**PEIDIWCH A
GORI AR STORI
ANFONWCH HI
I'R ECO**

Ond os na chafodd ran yn y pasiant gwreiddiol, bu'n ddigon ffodus o fewn blwyddyn, 'i gymryd rhan yn yr un pasiant gan Henaduriaeth Lerpwl, ond yn Saesneg y tro hwn. Yr enw arno oedd "Pageant of Peace and Goodwill", a chefais ran un o ferched y Crynwyr.'

Anfonodd Mrs Kitty Roberts, Arfryn, Ffordd Eryri, Caernarfon ddau lun o aelodau Llanberis a gymerai ran yn y Pasiant. Roedd ei diweddar dad yng nghyfraith, Thomas John Roberts, Olgra Terrace, Llanberis yn actio yn y Pasiant. Yn y llun cyntaf mae'r Parchg John Pritchard yn sefyll yn y rhes gefn, yn y canol, gyda Thomas John Roberts yn eistedd ar y chwith. Yn yr ail lun, mae'r ddau ohonynt yn eistedd gyda'i gilydd ar y chwith. Ond pwy yw gweddill aelodau'r olygfa? Oes rhywun o'r darllenwyr yn eu hadnabod?

Mae'n amlwg oddi wrth y lluniau fod gwaith manwl iawn wedi'i wneud gan rywrai i baratoi'r gwisgoedd, ac o ble tybed y daeth y cleddyfau a'r cyllyll a welir gan ambell gymeriad? Byddai gwybodaeth am y wniadwraig neu'r teiliwr a fu'n gyfrifol am y gwisgoedd yn ddiddorol.

BETH YW YSTYR 'IDAN'?

Gyda diolch i Wil Humphreys yng Ngwasg Gwynedd am dynnu fy sylw at eglurhad y diweddar Melville Richards yn y gyfrol *Enwau Tir a Gwlad*. Rwy'n dyfynnu'r hyn sydd yn y gyfrol honno: 'Mae Llanidan, Môn yn enghraifft dda o gymysgu enwau, yn enwedig pan geir enw sy'n dechrau ag n yn dilyn llan. Nidan yw enw'r sant, ond camrannwyd Llanidan a chael y ffurf Idan.'

Ond dyw'r eglurhad hwn o ddim cymorth i geisio esbonio pam fod Idan House yn Llanberis ac yn Llanrug! Yr unig eglurhad posibl y gallaf ei awgrymu yw fod teuluoedd o Lanidan ym Môn wedi setlo yn yr ardal ac wedi enwi eu cartref newydd ar ôl eu hen blwyf. Mae Brynsiencyn ym mhlwyf Llanidan ac yr oedd llawer o weithwyr yn teithio'n wythnosol oddi yno ar y fferi a'r trên i Chwarel Dinorwig. Tybed a'i rhai o'r teuluoedd hynny a ymsefydlodd yn ardal y chwareli a ddaeth a'r enw gyda hwy? Oes rhywun ag esboniad arall?

CYMRY'R FRO YN NE AFFRICA

Trwy law fion Orwig, Buarthau, Llanrug y daeth y canlynol. Roedd ffrind iddi wedi ymweld â mynwent Pilgrim's Rest yn Ne Affrica ac wedi copïo'r penillion canlynol oddi ar gerrig beddi yno. Credaf fod peth o hanes John David Morris, Eithin Duon, Llanrug wedi'i gyhoeddi eisoes yn yr *Eco* rai blynyddoedd yn ôl bellach.

Gwaith Llew Llwyfo sydd ar garreg ei fedd:

John Dewi Morris crys am orig
Yma, lle huna mewn bro bellenig;
Ond, 'e gwyd yn fendigedig — eto
Heb wyrth i'w effro'n Neheubarth Affrig.

O Gwm-y-glo y deuai Mary Roberts, a fu farw yn 1912 yn 42 mlwydd oed. Englyn o waith Dewi Orwig sydd ar garreg ei bedd:

Un annwyl yn y glyn unig a roed
Mary hoff garedig;
Huna draw 'mhell o'i hen dris — nes delo
Ein Iôr i'w deffro o weryd Affrig.

RHAN O HANES Y RHYFEL BYD CYNTAF

Dafydd Pritchard o Lanrug a'm cyfeiriodd at garreg fedd ym mynwent Llanrug, ac arni y geiriau: 'G. Caradoc Williams, 1894-1914; S.S. Empress of Ireland'. Cred Dafydd mai dyma'r llong gyntaf yn y Rhyfel Byd Cyntaf i gael ei suddo gan dorpedo, ond ni all gadarnhau hynny. Mae fy ngwybodaeth innau am hanes y rhyfeloedd byd yn hynod denau, felly byddai'r ddau Ddafydd(?) yn falch o glywed gan unrhyw un o'n darllenwyr â mwy o wybodaeth.

Ymddengys i'r torpedo gael ei dyfeisio yn 1864 gan beiriannydd o Awstri o'r enw Luppis, ond i Robert Whitehead ei datblygu i fod yn arf marwol o'i danio o long danfor.

Ond pwy oedd G. Caradoc Williams a fu farw'n ŵr ifanc ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf? Mae'r llythrennau ar y gofeb ym mynwent Llanrug yn aneglur bellach, ond gallai fod yn 'Tyddyn Felin'. Tybed oes rhai o'r teulu'n parhau i fyw yn yr ardal, ac sydd â mwy o wybodaeth am fywyd byr y gŵr ifanc?

Hanes, gwybodaeth, ymholiad — anfonwch air neu codwch y ffôn, a chysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (01286) 673515.

**PEIDIWCH
A GORI
AR STORI
anfonwch hi i
Eco'r Wyddfa**

Alwyn a Sarah Jones

**RACCA
PENISARWAUN**

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

DAMWAIN. Drwg oedd gennym glywed fod Megan, merch Mr a Mrs Phillip Jones, Tŷ Capel Sardis, wedi cael damwain trwy wrthdaro â wal y capel hefo'i beic ac iddi orfod aros noson yn Ysbyty Gwynedd. Da yw deall ei bod bellach gartref ac yn gwella.

PROFEDIGAETH. Rydym fel ardal yn anfon ein cydymdeimlad llwyrac i'r Parchg Olaf Davies a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli tad Mr Davies yn sydyn iawn yn y de. Derbynied ein cydymdeimlad llwyrac.

Anfonwn hefyd ein cydymdeimlad llwyrac i Mr a Mrs John Brennan, Afallon yn eu profedigaeth o golli eu merch, Mrs Annette Shaw, 16 Stryd yr Wyddfa, Llanberis.

Boed i'r ddau deulu yma gael nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma.

DIOLCH. Dymuna Mrs Maggie Griffith, Rhydychen (1 Maes Eilian gynt) ddiolch i Gapel M.C. Dinorwig am y croeso a gafodd tra ar ei gwyliau yn ei hen ardal. Dymuna pob llwyddiant i'r swyddogion a ffyddloniaid y festri fach i'r blynyddoedd a ddél. Diolch i chwi, Mrs Griffith, am eich llythyr a'ch geiriau caredig. Gobeithio y cawn eich croesawu eto'n fuan iawn.

GENEDIGAETH. Yn Ysbyty Gwynedd ar 26 Medi ganwyd Gwydion Glyn, mab i Ruth a Glyn Morris, Foel Gron, brawd bach i Einion ac Elen. Dymunwn pob

bendith, iechyd a hapusrwydd i chwi fel teulu i'r dyfodol.

YN YR YSBYTY. Da deall fod Miss Maggie Jane Jones, Foel wedi cael ei symud o Ysbyty Gwynedd i Ysbyty Eryri a'i bod yn gwella yn ara deg. Gobeithio gael dod gartref yn fuan.

DIOLCHGARWCH. Ar 11 Hydref croesawyd y Parchg Dennis Jenkins, Llanelli i bregethu mewn oedfa undebol yn Sardis gydag aelodau Libanus, Deiniolen. Bu Mr Jenkins yn weinidog ar y ddwy eglwys yn ystod y chwe degau a mawr oedd y croeso iddo.

Ar 18 Hydref cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch a gweinyddwyd y sacrament y Cymun yn Eglwys M.C. Dinorwig gan y Parchg John Gwilym Jones, Bangor. Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Erbyn i'r Eco ddod o'r wasg bydd tymor y Gymdeithas wedi dechrau ac fe gewch hanes y cyngerdd yn y rhifyn nesaf. Dyma gyfarfodydd mis Tachwedd — 5: darlith gan y Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon; 19: Sgwrs gan Mr Eric Gray Thomas, Caernarfon. Bydd y ddau gyfarfod yn y Ganolfan am 7 o'r gloch. Tâl aelodaeth am y tymor yw £1 ac mae croeso cynnes i bawb.

CAE CHWARAE'R PLANT. Fel yr addewis yn y rhifyn diwethaf y byddwn yn dal i frwydro ymlaen ynglŷn â phroblemau'r cae chwarae. Wel, blant, mae'n braf cael dweud fod y cytundeb i'w ailwneud wedi ei



Anwen Bryn Jones ac Arwel Hughes o Lanberis a briodwyd yn ddiweddar yn Eglwys Crist, Llandinorwig.

gosod a'r gwaith i'w ddechrau yn ystod mis Tachwedd a gobeithir ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn. Bydd dwy siglen newydd yn cael eu gosod ynghyd â ffrâm ddringo sy'n cynnwys sleid. Rhaid fu mynd a'r siso oddi yno gan nad yw'n unol a Deddf Iechyd a Diogelwch. Bydd matiau newydd yn cael eu gosod yno ac fe roir wyneb newydd ar y fynedfa. Wel, blantos gobiethio yn arw erbyn y flwyddyn newydd y cawn weld y cae chwarae ar ei newydd wedd.

DIOLCH. Dymuna John a Sally Brennan ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion yn Ninorwig a Phenisarwaun am eu cydymdeimlad a'r caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Mae'r caredigrwydd yma wedi bod o gymorth mawr iddynt hwy fel rhieni ac hefyd i'w chwaer, Roslynne, yn ystod eu profedigaeth. Bydd y rhoddion hael a dderbyniwyd yn mynd tuag at Ward Macmillan, Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon. Diolch yn fawr i bawb.

DRAENOG

Da deall fod gwersi Daearyddiaeth yn Ysgol Brynrefail wedi bod o fudd garw i un o'i chyn-ddisgyblion sydd ar fin cychwyn ar anturiaeth newydd yng Nghnada. Yn anffodus, thalodd o ddim cymaint a hynny o sylw yn y gwersi sillafu! Wrth chwilio am y daith rhataf mewn awyren fe'i cafodd ei hun yn Rhufain ar ei ffordd i CAGLIARI yn hytrach nac i CALGARY. Yn ei OL O, camgymeriad y cwmni teithiau oedd hyn!



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall.

Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.

Bwydlen Bar a Restaurant

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

CANOLFAN GYMUNED Y SEFYDLIAD COFFA. Cynhaliwyd noson goffi i godi arian at y Ganolfan nos Fercher, 7 Hydref, yn y Sefydliad Coffa. Diolchwyd i bawb am eu presenoldeb a'u cefnogaeth gan Mr Bob Thomas, Nant-y-glyn. Enillwyr y raffl oedd Keith Jones, Margaret Jones, Mrs E. Jones, Lyndale, Mrs Beryl Thomas, Eryl Pierce Jones. Rhoddwyd rhodd o £10 i'r Sefydliad Coffa ar gyfer y Ganolfan gan Mrs G. Kirkpatrick er cof am ei mab, Nigel, a fu mor weithgar a'i ofal am y gweithgareddau a gynhaliwyd yno, yn enwedig y Clwb Snwcer. Diolch o galon iddi.

Bydd tombola yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, 4 Tachwedd. Cefnogwch y noson, os gwelwch yn dda — bydd y Ganolfan ar gyfer pawb yn y pentref.

LLONGYFARCHIADAU i Ruth Ann Evans, 18 Glanmoelyn ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 18 oed ar Medi 19. Llongyfarchwn hefyd Mrs Anwen Owen, Bryn Moelyn ar ei phenodiad yn brifathrawes Ysgol Bro Llew ym Mhen-y-groes. Bydd yn cychwyn ar ei swydd newydd ym mis Ionawr 1999. Pob dymuniad da iddi.

GWELLHAD. Dymunwn wellhad buan i Mr Harri Roberts, Rhes Plas Tirion sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Brysiwch wella i chwi gael dod gartref.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Mai Parry, Bryn Heli yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Mr Sam Jones, Cwm-y-glo.

DIOLCH. Dymuna Ruth Evans, 18 Glanmoelyn ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Steffan Price Jones a'i deulu ddiolch yn fawr iawn i blant Ysgol Gynradd Llanrug am yr arian i'r gronfa a gasglwyd yn y gwasanaeth Diolchgarwch. Fe fydd Steffan yn teithio i Wlad yr Haf eto ym mis Tachwedd i gael asesu ei ddatblygiad. Diolch yn fawr iawn.

MERCHED Y WAWR. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y llywydd, Margaret Parry. Cydymdeimlwyd yn ddwys iawn â Pat Jones ar golli ei mam yn ddiweddar. Da oedd deall fod Gwenda Roberts a Jean Roberts

yn gwella wedi'u triniaethau yn Ysbyty Gwynedd ac anfonir cofion annwyl atynt.

Cynhelir Ysgol Undydd y Dysgwyr, Sadwrn, 7 Tachwedd yn Ysgol Maesincla ac mae croeso i unrhyw aelod o Ferched y Wawr fynd yno i sgwrsio â'r Dysgwyr o 2-4 o'r gloch.

Gan fod y gwasanaeth Carolau a gynhaliwyd y llynedd wedi bod mor llwyddiannus fe gynhelir gwasanaeth Carolau 'Cadwyn y Nadolig', nos Sul, Rhagfyr 6ed, yng Nghapel Ebenezer, Caernarfon am 8 o'r gloch. Mynediad trwy raglen a'r pris yn £2.

Y mae cardiau Nadolig ar werth am £1.60 y pecyn. Yn ogystal, gan mai 'Blwyddyn Darllen' yw hi, blwyddyn i hybu darllen i bawb, mae tocynnau llyfrau i'w cael am £5 yr un — anrhegion ardderchog ar gyfer y Nadolig.

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Merched y Wawr yn Llandrindod, Sadwrn, Mehefin 12fed, 199. Bydd yr Eisteddfod Rhanbarth ym mis Ebrill a gobeithir y bydd cynrychiolaeth o'r gangen — cawsom wobrau lu y tro diwethaf.



Alun Ffred Jones — gŵr gwadd Merched y Wawr — yn annerch ar y testun 'Dyddiaduron Mam'.

Y gŵr gwadd oedd Alun Ffred Jones, cynhorydd, cyfarwyddwr Ffilmiau'r Nant ac yn amlwg yn ddiddanwr. Diddanu'r aelodau gyda pytau o ddyddiadur ac ysgrifau a ysgrifenyd mewn iaith gyhyrog gan ei fam. Ei fam yn amlwg yn ddiwylliedig iawn ac yn hoff o natur, cerdd a phobl. Cafwyd cip ogleisiol o fam ifanc yn magu teulu o bedwar



Iona Williams, enillydd y Gadair; a Siôn Emyr Wynne, enilly Tlws yr Ifanc yn eisteddfod y pentref.

o hogiau direidus, Huw Ceredig, Dafydd Iwan, Arthur a 'bach y nyth' Alun Ffred — 'y tlysaf eto,' medd Alun Ffred! A hithau'n dymor concyrs cafwyd stori dda am hogia'r Mans yn hel concyrs hefyd! Cafwyd cipolwg ar fywyd gwraig gweindog a pha mor bwysig oedd y swydd honno iddi hi. Wedi gwranddo arno, dyhead nifer o'r aelodau oedd ail-afael yn y dyddiaduron neu'r papur a'r penisl a dechrau cofnodi'n ddyddiol neu'n achlysurol y digwyddiadau diddorol a difyr a ddaw i'r rhan — fel bo cyfnod i'r rhai a ddaw ar ei hôlau. Diolchodd Ann Ifans iddo am rannu môr o brofiadau diddorol gan brofi pa mor werthfawr yw cael bod yn berchen ar berlau o

ysgrifau fel rhai y fam arbennig hon. 'Noson o Gerddoriaeth Draddodiadol' a geir nos Fawrth, Tachwedd 10fed am 7.30 p.m., yn Ysgol Gynradd Llanrug. Felly dewch atom i wrando — ac i ymuno â'r Mudiad.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AVW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhos Faenol Ffôn: 871174

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf nos Lun, Medi 21 a daeth cynulliad da ynghyd. Estynnwyd croeso cynnes gan y Stynnydd Mrs J. Eirlys Williams. Cydymdeimlwyd â Mrs Marian W. Williams yn ei phroffedigaeth o golli ei phriod, Mr Bobby Williams. Anfonwyd ein cofion at Miss M. J. Jones sy'n wael yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwyd adferiad buan iddi. Roeddem yn falch o weld rhai o'r aelodau a fu'n wael yn ôl gyda ni.

Ein gŵr gwadd oedd Mr Dewi Tomos, Carmel ac ymunodd ei ferch, Gwenllian ag ef i gyflwyno peth o hanes pentref Carmel a'r cyffiniau. Cafwyd noson ardderchog yn eu cwmni a phawb yn mwynhau'r atgofion a'r farddoniaeth a gyflwynwyd ganddynt. Diolchwyd gan y llywydd a chan Miss E. Wyn Jones. Gwnaed y baned gan Miss N. Owen, Mrs J. Jones a Mrs M. C. Griffith. Enillwyd y raffl gan Miss E. Wyn Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 19 pan geir sgwrs ar Reflexology gan J. Vaughan Owen.

LLONGYFARCHIADAU i Marina Gwilym, Pros Kairon, Ffordd Deiniol ar enedigaeth mab, Harri Marzelus Jones, ar 25 o Fedi.

PLAID CYMRU. Enillwyd Clwb 100 am fis Medi — £10 Mrs Eurwn Williams, 32 Hafod Olau; £5 Mrs M. C. Jones, Tan-y-caerau. Mis Hydref — £10 Mrs Gwyneth Fretwell, 21 Heol Gelert, Caernarfon; £5 Mrs Gwen Griffith, Fron.

EGLWYS CRIST LLANDINORWIG. Am 6 o'r gloch yr hwyr ddydd Sul, 18 Hydref, a hithau hefydd yn ddygwyl St Luc yr Efengylwr, cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch am y cynhaeaf ar ffurf Gosber Cymraeg. Y pregethwr gwadd oedd y Parchg Emyr Owen, Guran a fu, hyn ddiweddar yn Gangan ym mhlwyf rheithorol Llanberis a Llanrug, sydd bellach yn Glerig Mewn Gofal o eglwys Maes-y-groes, Llanllechid ac sydd hefyd yn rhan o dîm o weinidogion cydenwadol sy'n gwneud gwaith ecwmenaidd yn mhlwyf Bangor. Roedd adeilad yr eglwys wedi'i haddurno'n hardd fel arfer a da oedd gweld cynulleidfa gref wedi dod ynghyd. Cyfeiriwyd yn benodol at ddau glaf yn ystod y gwasanaeth,

sef Mrs Elspeth Griffith y Warden a Mrs Gwyneth Price, y ddwy wedi derbyn llawdriniaethau yn Manceinion yn ddiweddar ond sydd bellach yn gwell. Dymunwyd hefyd adferiad iechyd i bawb arall sydd mewn anhwylder.

Prynhawn Llun, 19 Hydref, cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch arbennig gan blant yr Ysgol Sul ac anerchiad ar y diwedd gan y Clerig Mewn Gofal. Eto daeth cynulleidfa dda i'r gwasanaeth hwn i weld a chlywed y plant yn moli Duw am ei haelioni i ni.

Dymuna'r Parchg Tegid Roberts a swyddogion yr eglwys ddiolch i bawb a anfonodd roddion o flodau, ffrwythau a llysiau i addurno'r adeilad ac i'w gosod yn offrrwm o flaen yr allor.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. Cyfarfu aelodau'r Gymdeithas newydd hon am yr eildro yn yr eglwys nos Lun, 5 Hydref, pryd y cafwyd Swper Cynhaeaf amheuthun dros ben wedi'i baratoi gan yr aelodau. Y siaradwr gwadd oedd Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug a rhoddodd anerchiad diddorol iawn am un neu ddau o achosion rhwng tenantiaid a landlordiaid y plwyf oddeutu can mlynedd yn ôl. Bu'r fenter arbrofol hon yn llwyddiant ysgubol ac edrychir ymlaen am gyfarfod tebyg eto y flwyddyn nesaf. Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas am 7 o'r gloch nos Lun, 2 Tachwedd, pryd y bydd Miss Moeller a Miss Mathews yn dangos sleidiau o'u taith i Alaska. Cynhelir cinio blynyddol y Gymdeithas yng Ngwesty Bryn Eisteddfod, Clynnog Fawr nos Wener, 11 Rhagfyr. Mae'r wybodaeth am y cinio hwn eisoes wedi'i roi i'r aelodau. Mae tocyn aelodaeth, sy'n cynnwys rhaglen y flwyddyn, ar gael gan Mrs Eileen Hughes a'r gost yw £3 y flwyddyn a 50c y cyfarfod i'w rhoi i'r trysorydd, Mrs Gwen Griffith, Fron.

CEFNOGWCH EICH EISTEDDFODAU LLEOL

Hydref 31:
GWAUN GYNFI
Tachwedd 7:
WAUNFAWR
BETHEL

Bwriadwn gyhoeddi Atodiad Eisteddfodau'r fro eto eleni.

A wnaiff ysgrifenyddion HOLL eisteddfodau'r ardal anfon canlyniadau, cynnyrch llenyddol a lluniau at y golygyddion erbyn TACHWEDD 20.


Cyhoeddir yr Atodiad yn rhifyn Nadolig yr Eco

I drin a thrwsio
pob math o
beriannau gwnïo
MENAI SEWING
MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248)
714043 neu
(01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc



Dyma Ninghui o China a fu'n treulio seibiant yng nghartref ei chyfaill Siôn Rees Williams, Allt Riwth, Pontrhythallt. Mae hi'n gyfieithydd gydag UNESCO ac ynglŷn â'i dyletswydd yn teithio ledled y byd. Mae'r ddau'n cydweithio ym Mharis.



Penderfynodd un creadur bach o Lanberis brynu gwely newydd o'r siop DIY. Ond wedi gosod y bariau pren ar waelod y gwely roedd 'na fwllch mawr yn un pen — GWILia'r mesuriadau y tro nesa, was!

PLENTYN Y NADOLIG

Mae'r elusen Pwrs y Samariaid / Ymgyrch Plentyn y Nadolig yn casglu anrhegion Nadolig i blant anghenus eleni eto. Dros y blynyddoedd mae miliynau o blant mewn gwledydd fel Bosnia a Romania wedi derbyn bocs esgidiau yn llawn o anrhegion.

Mae rhai o'r ysgolion lleol yn brysur yn casglu bocsus ar hyn o bryd a'r plant yn mwynhau paratoi'r anrhegion yn ofalus.

Cafwyd cefnogaeth ardderchog i'r ymgyrch hon yn lleol ers blynyddoedd. Os ydych am baratoi bocsus eleni ac heb gael y daflen a'r label arbennig sydd i'w rhoi ar y bocsus, cysylltwch â **John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis, Ffôn: (01286) 872390.**

Mae'r elusen yn gofyn am £2 gyda phob bocsus i dalu am gost cludo'r anrhegion dramor.

Mae'r holl fanylion ar y daflen am sut i bacio'r bocsus a beth ellir ei gynnwys.

Gallwch anfon y bocsus i'r cyfeiriad uchod erbyn **Tachwedd 27.**

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

CYMDEITHAS Eglwys St Peris a St Padarn. Cafwyd noson ddiddorol iawn nos Iau, Hydref 1, pan groesawyd y Parchg Huw Gwynfa Roberts yn ŵr gwadd i Gymdeithas yr Eglwys, a gynhaliwyd yn y Rheithordy. Dechreuwyd y cyfarfod trwy weddi dan arweiniad Mrs Nancy Jones, Stryd Newton, a chroesawodd y Cadeirydd, Mrs Ann Parry-Jones Mr Roberts a'i briod, sydd yn un o ferched Llanberis, i'n plith. Dymunwyd gwellhad buan i amryw o'r aelodau sy'n wael eu hiechyd ar hyn o bryd.

Gyda chymorth sleidiau a llyfrau albwm cafwyd sgwrs ddifyr a chartrefol iawn yn dweud hanes y cerdyn post ers dechrau'r ganrif pan ddaeth anfon cerdyn ar wahanol achlysuron yn beth poblogaidd. Yn naturiol y cardiau o'r ardal yn dangos y gwahanol strydoedd, siopau, gwestai a'r addoldai oedd yn ennyn y diddordeb mwyaf ac yn destun llawer sgwrs ymysg yr aelodau.

Diolchwyd i Mr Roberts, a'r gwragedd te, Mrs Evelyn Williams a Mrs Heulwen Edwards, gan Mrs Clara Roberts. Hi hefyd enillodd y raffl.

LLEISIAU LLIWEDD. Bu'r parti yn cynnal oedfa'r hwyr yn Capel Coch ar 6 Medi. Ar Fedi 25ain roeddent yn cymryd rhan mewn cyngerdd yn Llanfairpwll, er budd Uned Cancr Ysbyty Gwynedd, gyda Côr Dyffryn Nantle, Hogia'r Wyddfa a Broc Môr.

Yng Nghanolfan Dydd Maesincla y boom ar Hydref 19 ac yn cynnal oedfa hwyrrol yng Nghapel Cefnywaun, Deiniolen ar Hydref 25.

Buom yn cynnal Noson Lawen yn Niwbwrch, Môn ar 29 Hydref.

Ymgeisydd y Blaid



Mae Plaid Cymru wedi dewis un o wŷr busnes amlycaf y pentref yn ymgeisydd i gynrychioli Ward Llanberis ar Gyngor Gwynedd. Mae'r sedd yn wag yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Noel Davies.

Danny Roberts yw perchennog Y Bistro, un o dai bwyta mwyaf poblogaidd Llanberis. Mae'n ŵr lleol, wedi byw yn Llanberis ar hyd ei oes, ac yn 52 mlwydd oed. Mae'n Gadeirydd Cymdeithas Gyhoeddusrwydd Llanberis.

Cynhelir yr Etholiad ddydd Iau, Tachwedd 19.

Gellir cysylltu â Danny Roberts drwy ffonio Llanberis 871278.

Cawsom groeso cynnes iawn ym mhob un o'n cyngherddau.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd y cyfarfod misol brawn Mawrth, 6 Hydref, yn y Rheithordy. Y Parchg Emyr Owen, ein cyn-gurad, a gymerodd y gweddiâu gyda Mrs Audrey Evans yn darllen rhan o'r Ysgrythur.

Y Parchg Emyr Owen oedd ein gŵr gwadd hefyd a chafwyd amser hynod o ddifyr yn ei gwmi yn egluro rhan o'i waith ym mhlwyf Bangor a'r cylch. Mae ei waith bellach yn dra gwahanol fl Ficer yn hytrach na gwaith Curad, meddai, ac fe'n sicrhodd ei fod yn hapus iawn yn ei swydd newydd ac yn mwynhau'r sialens a'r amrywiaeth yn fawr. Roeddem yn falch o ddeall fod Dawn, ei briod, a Poppy ei ferch fach, yn setlo yn eu cartref newydd.

Balch iawn oeddem o dderbyn aelod newydd i'n plith, sef Mrs Gwen Williams, 2 Maes Padarn, a gobeithiwn y bydd yn hapus yn ein cwmni.

Mrs Clara Roberts a Mrs Marjorie Edwards oedd yn ymorol am y baned a diolchwyd iddynt ac i'r Parchg Emyr Owen gan Mrs Bet Hughes ac fe eiliwyd y diolch gan Mrs Kathleen Williams. Adroddwyd y Gras i derfynu'r cyfarfod.

DATHLU PEN-BLWYDD. Dymuna Gloria Pitts, Glan'rafon Bungalows, ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed. Diolch arbennig i Bev.

PLAS PENGWAITH. Croesawn adref o'r ysbyty Mr O. G. Jones a Mrs D. M. Jones a gobeithiwn bod y ddau'n gwella. Yn yr ysbyty ar hyn o bryd mae Mrs M. Munro ac mae pawb yma yn cofio ati ac yn dymuno iddi wellhad llwyr a buan.

Dathlodd Miss M. Williams a Mrs F. Fisher eu pen-blwydd yn ystod mis Hydref. Gobeithio iddynt fwynhau eu diwrnod.

Estynnwn groeso cynnes i Mr T. A. Pritchard sydd wedi dod atom am gyfnod.

Yn dawel yn y cartref bu farw Mrs Rose Williams, gynt o Vaynol Cottages, Llanberis. Cymeriad distaw, hoffus a pharchus ydoedd a phob amser yn barod i helpu ac fe fwynhai cwmni ei theulu a'i ffrindiau. Bu yma ym Mhlas Pengwaith ers 1995. Bu gwasanaeth yn Eglwys St Padarn ar 30 Medi ac yna yn Amlogsgfa Bangor. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu profedigaeth.

ENILLWYR Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Hydref — £35 Mrs J. Vaughan, 1 Rhesdai Cambrian (87); £25 Mr F. Hill, Stryd Turner (199); £15 Mrs G. Roberts, Waterfall View (142); £10 Mrs C. Hughes, 1 Stryd Ianci (90); £5 Mrs E. Thomas, 9 Stryd y Ffynnon (148).

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd cyngerdd dan arweiniad Mr John Huw Hughes yn festi Capel Coch nos Fawrth, Hydref 13. Cafwyd eitemau amrywiol gan aelodau'r Gymdeithas a diolch i bawb a gymerodd ran.


Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Tachwedd 10 yng nghwmni Mr Norman Williams, Brynrefail.

Ffair Aeaf yr Amgueddfa



Holli llechen fydd un o'r gweithgareddau ar eich cyfer yn y Ffair Aeaf yn y Gilfach Ddu dydd Sadwrn a dydd Sul 28 a 29 Tachwedd. Cofiwch am y diwrnod hwyliog a phrysur hwn. Mae'r Amgueddfa yn cynnal y Ffair yn gynharach nag arfer elni a bydd Siôn corn yn siŵr o alw heibio.

Sglefrio ar y Llyn



Glaw, glaw a mwy o law fu hi yn ddiweddar. Ond eira a rhew oedd hi pan oedd yr hogia yma yn sglefrio ar Llyn Padarn ers talwm. Cyhoeddwyd y llun yn wreiddiol yn *Y Cymro*. Roedd yr ysgol wedi'i chau am fod y pibellau dŵr wedi rhewi.

Pwy yw'r rhain?



Yn *Y Cymro* hefyd y gwelwyd y llun hwn. Ond pwy yw'r rhain sy'n cael llofnod Robert Beatty mewn gwesty lleol? Ac er mwyn i'r golygyddion gael dangos eu hoedran... a'u hanwybodaeth... pwy oedd Robert Beatty?

NEWYDDION YSGOL BRYNREFAIL


FY MHROFIAD GWAITH yn yr Amgueddfa Lechi Llanberis

Bûm ar fy mhrofiad gwaith o'r ysgol am wythnos o Fedi 28 hyd Hydref 2 yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Roedd hyn yn brofiad da i mi o'r byd gwaith. Roeddwn yn gweithio o 9.30 a.m. hyd at 4.30 p.m. ac yn cael awr i ginio.

Roedd pawb yno reit groesawus a chefais wneud llawer o dasgau gwahanol. Bûm yn helpu Gareth yn y lle ffilm 3-D ac hefyd cefais lanhau injan stêm o'r enw Una gyda Douglas. Hefyd bûm yn gwneud llun trên ar lechan gyda Johnny B. Bûm o gwmpas y ffowndri yn gwyllo Elwyn yn mynd ymlaen gyda'i waith.

Mae caffi yn cefn yr amgueddfa lle rydych yn cael bwyd cartref gwahanol. Cefais ginio ynbo un diwrnod sef pei oen a sglodion ac roedd yn flasus iawn.


Mae 22 o bobl yn gweithio yn yr amgueddfa ac maent i gyd yn gwneud rhywbeth gwahanol fel gweithio yn y swyddfa, marchnata, gweithio yn y siop, hollti llechi, sydd yn cael ei gyrru i chwarel Penrhyn i gael eu



gwerthu. Maent yn gwerth swfenirs wedi eu gwneud o lechi yn siop yr amgueddfa.

Cefais hefyd brofiad o weithio yn y swyddfa gyda Julie a Celia a chael cyfle i ddefnyddio cyfrifiadur. Felly cefais brofiad o wneud pethau gwahanol. Mwynhais fy hun yn fawr iawn yn gweithio yn yr Amgueddfa a buaswn yn mynd yn ôl rhyw dro eto.

DAFYDD EMRYS



Llongyfarchiadau i Jennifer a Phillip Morgan a Delyth Pritchard ar gael tystysgrif un seren am ganwio. Da gweld camp newydd yn amlygu ei hun gan ein disgyblion.

Ymweliad â Glan-Ilyn

Gwlychu, chwerthin, glwychu, bwyta a dawnsio fu hanes criw blwyddyn 8 a 9 ar eu penwythnos yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-Ilyn. Bu'r penwythnos o ganwio, hwylio, nofio a dringo yn un llwyddiannus ond blinedig ac ofer fu'r ymdrech i geisio cadw'n sych fel darganfu Gavin, 'Dwi ddim isio mynd ar y llyn'.

'Mae Sarah Margaret yn sâl.'

'Mae Collette wedi briof'i throed,' oedd ychydig o'r cwynion fu'n rhaid i Mrs Gwyneth Metcalfe, Mr Elfyn Roberts a Mr Mark Potter ddelio â hwy. Er yr holl gwynion a'r dillad gwlyb mwynhaodd pawb eu penwythnos ac roedd Chris Williams wrth ei fodd yng nghwmni'r swogs!!!!

LLINOS WILLIAMS



Cafodd Iwan Morris, Bl. 7, o Lanberis ei ddewis i chwarae rygbi i dîm o dan 12 oed gogledd-orllewin Cymru yn erbyn tîm o'r de ar y 4ydd o Dachwedd ar gae rygbi Bethesda am 6.30 o'r gloch. Pob lwc iddo'n gwisgo'r crys rhif 8.

Gemau Pêl-droed yn erbyn Ysgol Eifionydd

Blwyddyn 9:

Sori! Dim byd newydd i'w ddweud heidi! Dim byd newydd hogia dan bedair ar ddeg oed Brynrefail eto. Y tro hwn sefydlwyd record newydd wrth i ni ennill o naw gôl i ddim.

Paul Hughes agorodd y sgorio. Aeth yn ei flaen i sgorio eto, a'r sgorwyr eraill oedd Marcus Orlik, Jonathan Gordon (2) ac Owain Morris (3). Sgoriodd ysgol Eifionydd 'own goal' hefyd. Gallai'r sgôr yn dawdd fod yn fwy ond methwyd dwy gic o'r smotyn gennym. Wnawn ni ddim dweud pwy fethodd, ond os ydych eisiau gwybod, chwiliwch am y wynebaw coch!

Anaml iawn y cafodd Ben Boothroyd a Gavin Davies, y golwyr, eu profi ond yn yr ail hanner arbedodd Gavin yn gampus i sicrhau na ildwyd gôl.

Yn anffodus aeth Marcus Orlik oddi ar y cae wedi iddo anafu ei goes. Mae pawb yn y tîm yn dymuno gwllhad buan iddo.

Felly rydym drwodd i'r ail rownd. Gobeithio y chwaraewn ni fel hyn drwy'r tymor ac ennill cwpan Cymru eto.

DAFYDD PRITCHARD A OWAIN MORRIS

BLWYDDYN 7:

Yn anffodus colli wnaeth tîm blwyddyn 7 o 2 gôl i 1. Roedden

ni'n chwarae'n well na Phorthmadog. Cafodd Mathew lawer cyfle i sgorio ond methodd wneud hynny. Cawsom ni ddwy gic rydd, a Mathew yn taro'r trawst ddwywaith. Sgoriodd Carl gôl hefyd. Roeden ni'n chwarae gormod efo'r bêl yn le ei phasio i'n gilydd.

MALVIN PRITCHARD


PYTIAU CHWARAEON

- Llongyfarchiadau i Owain Siôn Williams fu'n cynrychioli tîm rygbi dan 14 oed Eryri yn erbyn tîm Dinbych. Enillwyd y gêm gan fechgyn Eryri.
- Llongyfarchiadau hefyd i Owain ynghyd â Marcus Orlik, Owain Morris ac Alister Addison sydd wedi eu dewis i dîm pêl-droed dan 14 oed Gwynedd fydd yn chwarae yn erbyn Conwy.
- Bu tîm bechgyn hyn yr Ysgol yn chwarae yn erbyn Coleg Menai yng Nghwpan dan 19 oed Ivor Tuck. Wedi gêm dda ac ymdrech lew gan dîm yr Ysgol, Coleg Menai oedd yn fuddugol o 4 gôl i 2.
- Llongyfarchiadau mawr i Ellen Robinson o Fethel ar gael ei dewis i chwarae pêl-rwyd i dîm -18 Gwynedd a tîm -18 Eryri. Maes o law bydd yn cael mynd i dreialon Cymru. Pob lwc iddi yno.



Cynhaliwyd gemau hoci Gwynedd yn erbyn Môn a Chonwy a braf oedd gweld aelodau o'r ysgol yn y ddau dîm, sef -16 a -18.

Cafodd Siân Green o Lanrug ei dewis yn gapten y tîm -16 a oedd hefyd yn cynnwys Becky Jones, Claudia O'Donnell a Diana Roberts - y dair o Lanberis.



Llinos Williams o Fethel oedd capten y tîm -18 a oedd hefyd yn cynnwys Kelly Williams, Llanrug a Iona Williams, Llanrug.

Y canlyniad oedd i dîm Gwynedd ddod yn gyntaf yn y gemau -16 ac yn ail yn y gemau -18. Da iawn genod. Mae'n braf gweld eich llwyddiant.

Gemau Ysgol v Ysgol Dyffryn Nantlle. Colli wnaeth tîm pêl-rwyd -14 yr Ysgol o 7 gôl i 3. Chwaraeodd y tîm yn frwdfrydig ac efo tipyn bach mwy o ymarfer

byddant yn profi llwyddiant.

Enillodd tîm hoci -16 o 7 gôl i 0. Mae dyfodol addawol iawn i'r tîm yma ond iddynt ddal i weithio'n galed a chadw'r brwdfrydedd.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r gangen yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, Hydref 14. Croesawyd pawb gan Mrs Anne Elis, y llywydd. Dymunodd wellhad buan i Mrs Gwyneth Price sydd wedi cael llawdriniaeth ar ei chalon yn Manceinion; hefyd Mrs Alys Jones ar ôl ei llawdriniaeth. Dymunwyd adferiad buan hefyd i wŷr Mrs Nancy Williams a Mrs Deilwen Hughes, y ddau wedi bod yn yr ysbyty. Llongyfarchwyd Mrs Rita Williams ar gael ei hethol yn is-ysgrifennydd Rhanbarth Arfon. Gofynnodd i unrhyw aelod gysylltu â hi os oes ganddynt ddi-ddordeb i helpu gyda darllen ar y cyd gyda phlant yr Ysgol Gynradd.

Mae cardiau Nadolig a thocynnau llyfr Merched y Wawr ar werth gan Mrs Margaret Rees; hefyd, am £2 yr un, rhaglenni gwasanaeth carolau Merched y Wawr Rhanbarth Arfon a gynhelir yn Eglwys Ebeneser nos Sul, Rhagfyr 6.

Mrs Nesta Jones a Bantglas oedd y wraig wadd a chafwyd noson ddi-ddorol iawn gyda Nesta yn sgwrsio a dangos fideo o fywyd cerddorol ei mab, Bryn Terfel. Llongyfarchodd y llywydd Nesta ar fod yn nain unwaith eto. Diolchwyd iddi gan Mrs Gwyneth Jones. Paratowyd y te gan Mrs Lynwen Morris, Mrs Ceinwen Williams a Mrs Glenys Griffiths. Enillydd y raffl oedd Mrs Alwena Hughes-Jones, Llanrug.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Tachwedd 11, pan geir noson o Frethyn Cartref gyda rhai o aelodau'r gangen yn diddori.

ENILLWYR Clwb 200 y Neuadd Goffa am fis Medi: £20 E. Watkin, Ty'n Lôn (131); £10 William Parry, 11 Tan-y-buarth (129); £5 yr un i Freda Jones, 3 Rhos-lan (151); Wyn Morris, Fachell (136); Gwyneth

Price, Bro Eglwys (94); William Humphreys, Llwyn Hudol (60); Ellen Jones, Glas Ynys (212); Susan Newton, Llywydiarth (213); Olwen Williams, 8 Stad Eryri (18).

YR EISTEDDFOD. Cynhelir yr Eisteddfod ddydd Sadwrn, 7 Tachwedd, yn y Neuadd Goffa. Dechreuir am hanner dydd a 6 o'r gloch yr hwy. Eleni cyflwynir Tlws er cof am Siân Robinson i enillydd y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus. Y testunau yw: (i) Gorau Cymro, Cymro dwyieithog; (ii) Chwrae gêm y dynion; (iii) Brâd y bandiau Cymraeg; (iv) Yr hen a wŷr a'r ifanc a dybia.

Os dymuna rywun gyfrannu at y raffl (bocs o nwyddau) neu roi unrhyw wobwr arall cysyllted â Sheilagh Foulkes.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Ygorfod ym y Gymdeithas parti chwyngerd yng nghwmni parti Clychau'r Grug dan arweiniad Glenys Griffiths yn festri'r Cysegr, nos Fawrth, Hydref 27.

Bydd yr ail noson nos Fawrth, 17 Tachwedd yn y Cysegr pryd y disgwylir Mr Gwilym Owen, Bangor i roi sgwrs i'r aelodau. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCHGARWCH. Cynhaliwyd gwasanaethau Diolchgarwch y Cysegr ddydd Sul a dydd Llun, Hydref 18 a 19. Fore Sul cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul a gwnaed casgliad o £137 tuag at granfa Michael Hughes-Williams, Llanberis. Am ystod y gwasanaeth cafwyd anerchiad ddifyr iawn gan Mererid Williams, Caernarfon gan ganolbwyntio ar y gwahaniaeth sydd rhwng cyfoeth gwledydd y gorllewin â'r Trydydd Byd a phwysigwydd rhannu'r hyn sydd gennym â'r gwledydd sy'n newynu.

Llongyfarchiadau i'r Swyddfa Bost a'r postmon lleol am sicrhau bod y llythyr gyda'r cyfeiriad isod wedi cyrraedd pen ei daith, sef Llwyn Eithin, Bethel, a hynny o fewn dau ddiwrnod o'i bostio yn yr Iseldiroedd.

Cor Meibion Dyffryn Nantile
Mr. J. Griffith
Gwyn zfirlain, Rethet, Caernadoa
Gwynveld LL55 1AX
Wales GB

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.



Sioned Catrin Davies a enillodd dlws y Prif Lenor yn Eisteddfod Penisarwaun yn ddiweddar. Roedd hefyd yn fuddugol ar yr adrodd a'r ddeuawd, yn ail am ganu'r piano, ac yn aelod o'r côr buddugol.

CLWB ERYRI

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos Wener, Hydref 2, pryd yr estynnwyd croeso i'r aelodau gan y llywydd newydd, Alwyn Evans, Caernarfon. Cyn mynd ymlaen at faterion eraill, cyfeiriodd at golli yr aelod ffyddlon ac annwyl, Bobbie Williams, Deiniolen, a fu farw fis Medi. Talwyd teyrnged seml a diffuant iddo gan ei gyfaill ac islywydd y Clwb, John Emlyn Hughes, Racca. Ar nodyn hapusach, soniwyd am wellhad Ralph Jones, Llanberis a gafodd driniaeth lawfeddygol ddwys a chymhleth ym Manceinion ddechrau'r haf. Llawenydd oedd clywed ei fod ar y mendio ac y cawn ei gwmni a'i gyfraniad eto cyn bo hir.

Yn ei sylwadau rhagarweiniol, diolchodd y llywydd hefyd i'r ragflaenydd, Cledwyn Pritchard Jones, Llanberis am ei arweiniad yn ystod y tymor a fu a sicrhaodd i'r Clwb lewyrch a phrysurdeb; ac i John Hugh Hughes am ei drefniadau trylwyr a diddorol parthed y wibdaith flynyddol ar

20 Mehefin. Cafwyd lluo o ymddiheuriaedau am absenoldeb ac fel canlyniad roedd y gynulleidfa'n ysgafnach nag y bu ers amser. Hefyd, collwyd dau aelod a bydd angen meddwl am lenwi'r bylchau rhag blaen. Cyflwynwyd siaradwr y noson, sef y llywydd gan ei ddirprwy a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddo ar Ynys Enlli drwy'r canrifoedd. Plethodd ei sylwadau'n ddeheuig ddigon i gynnwys cyfnod aur y seintwar a'r amseroedd mwy brith pan fu'r ynys yn lloches môr-ladron ac wedyn yn rhan o stad yr Arglwydd Newborough pan sefydlwyd achos ac ysgol yno.

Wedi trafodaeth a lluniaeth ysgafn, diolchwyd i'r siaradwr gan Dafydd Ellis, Brynrefail a chyhoeddwyd bod y cyfarfod nesaf ar nos Wener, Tachwedd 6, pryd y ceir anerchiad gan y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon, gyda Dafydd Ellis yn y gadair.

IOLO HUWS-ROBERTS

CANOLFAN FFITRWYDD P.C. Hen Safle Marconi Waunfawr

(01286) 650011

- ★ OFFER RHAGOROL ★
- ★ YSTAFELLOEDD NEWID ★
- ★ CAWODYDD ★
- ★ TALU WRTH Y DRWS ★
- ★ DIM ANGEN CADW LLE ★

ORIAU AGOR:

11 a.m. - 9 p.m. Llun - Gwener
10 a.m. - 9 p.m. Penwythnosau

PRISIAU:

1 sesiwn £3 10 sesiwn £25
Tocynnau 6 a 12 mis ar gael

CHIROPODIST Gwasanaeth yn eich cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
(01286) 675754

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

NEWYDDION O'R YSGOL. Ar ddechrau'r flwyddyn addysgol newydd dechreuodd tri aelod o staff ar eu dyletswyddau o'r newydd, sef Mrs Carol Jones, sy'n dysgu'r plant meithrin ac yn Adran y Babanod; Mrs Siân Jones sy'n dysgu Bl. 5 a 6; a Mrs Nan Rowlands sy'n cynorthwyo gydag anghenion addysgol arbennig. Croeso i'r dai ohonoch a gobeithio y byddwch yn hapus ym Mhenisarwaun.

Yn ddiweddar daeth y Ganolfan Addysg Bywyd i ymweld â'r ysgol gan roi cyfle i'r dosbarthiadau yn eu tro ddysgu am wahanol agweddau o edrych ar ôl y corff a chadw'n iach trwy gymorth fideo, technoleg pwrpasol a sgwrs ddiwyf iawn.

Yna treuliodd Bl. 5 6 ddiwrnod arbennig o ddiadorol yn Llangefni yn dysgu ac yn defnyddio gwahanol dechnoleg dan ofal CELTEC. Diolch am y croeso a gafwyd a gobeithiwn ddychwelyd yn y dyfodol agos.

Cyn y Diolchgarwch treuliodd Miss Andrea Paterson wythnos yn arsyllu yn yr ysgol fel rhan o'i chwrs coleg. Yna, ar ôl yr hanner tymor bydd Mr Garum Jackson yn treulio cyfnod o ymarfer dysgu yn nosbarth Miss Jên Jones. Edrychwn ymlaen am ei gwmni.

YR URDD — ADUAN BENTREF. Bydd yr Urdd yn cychwyn ddydd Mawrth, 3 Tachwedd am 6 p.m. yn y Neuadd Gymuned. Bydd croeso i blant o Bl. 2 ymlaen i ymaelodi.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch gan aelodau'r Ysgol Sul bnawn Sul, 11 Hydref. Thema'r gwasanaeth oedd 'Helpu'n Gilydd' a diolchir i'r plant i gyd am wneud eu gwaith mor dda ac am ffyddlondeb y bobl ifanc. Gwnaed casgliad o £30 at ginio Nadolig yr henoed.

YR EISTEDDFOD. Nos Wener, 9 Hydref, cynhaliwyd eisteddfod lwyddiannus iawn yn y Neuadd Gymuned. Bu cystadlu brwd o 6 p.m. hyd un o'r gloch fore Sadwrn. Braf iawn oedd gwrandio ar gymaint o bobl ifanc y pentref yn cymryd rhan, oddeutu ugain ohonynt yn cystadlu ar yr amrywiol gystadlaethau o 12 oed i fyny. Roedd cystadlaethau'r plant o dan 12 o safon uchel iawn hefyd a diolchir i'r rhieni ac yn arbennig i Marina Jones am hyfforddei'r plant ac i'r ysgol

hefyd am eu cefnogaeth hwythau. Diolchir i'r beirniaid i gyd am eu parodrwydd ac am eu beirniadaethau adeiladol ac annwyl. Cyfeilydd y noson oedd Mr Gareth Jones, athro cerdd Ysgol Brynrefail a diolchir iddo am ei wasanaeth clodwiw. Llywydd y noson oedd Mrs Ann Thomas, Buarthau, Llanrug a braf oedd ei gweld a'i chlywed yn sgwrsio'n hamddenol efo'r plant ac yn adrodd ei hatgofion hi am eisteddfota. Gwir y gair, mai ar lwyfannau eisteddfodau pentref y cychwynnodd y grefft i lawer canwr, adroddwr, actor a llenor amlwg. Y mae'r pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a gefnogodd yr eisteddfod eto eleni. Bydd lluniau a chanlyniadau'r eisteddfod yn y rhifyn nesaf o'r Eco. **PWYLLGOR NEUADD.** Cynhelir hwyl a miri Calangaeaf nos Wener, Hydref 30 am 6.30 p.m. Dyma'r cystadlaethau: 1, Jac Lantarn; 2, ysgub; 3, mwgwd; 4, gwisg; 5, swynion; 6, teisen Calangaeaf; 7, llun. Gobeithio y cawn hwyl a sbri. **PROFEDIGAETH.** Cydymdeimlir yn ddwys iawn ag Elinor Williams a'r teulu, Bryn Rhydd Mawr ar farwolaeth sydyn ei mam ym Mochdre.

Dymuna Elinor ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad, yn gardiau, rhoddion, galwadau ffôn ac ymweliadau yn dilyn ei cholled sydyn ac annisgwyl.


DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau i Osian Dafydd a Sara Jones ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch oddi wrth y ddau deulu.

DIOLCH. Dymuna Jean Roberts, Tai Croesion ddiolch yn gynnes iawn am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd iddi wedi'i thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryntirion ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ddatlu ei phen-blwydd.

PRIODAS ARIAN. Dymuna Elizabeth ac Eric ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd ar achlysur datlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

TRIP SIOPA NADOLIG. Bydd trip siopa yn mynd i Lerpwl ddydd Sadwrn, 5 Rhagfyr. Bydd y bws yn cychwyn o flaen yr Ysgol Gymuned



Aelodau'r Ysgol Sul Undebol Bosra a fu'n crymryd rhan yn y gwasanaeth Diolchgarwch.

am 7.30 a.m. Ar y ffordd gartref bydd cyfle i gael pryd o fwyd yn y Travellers' Inn. Pris y bws fydd £6.50. Enwau i Jean Jones, 24 Bryntirion, ffôn 872384, os gwelwch yn dda.

LWC DDA. Dymunir pob hapusrwydd i Olwen Meredydd a Kevin ar achlysur eu priodas ddydd Sadwrn, Hydref 24.

EGLWYS SANTES HELEN. Cafwyd cefnogaeth dda iawn, yn ôl y disgwyl, i'r ddau wasanaeth Diolchgarwch am y cynhaeaf eleni eto. Cynhaliwyd yr Wyl eleni ddydd Sul, 18 Hydref a oedd hefyd yn ddygwyl St Luc yr Efengylwr. Am 10.30 a.m. cafwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid dan ofal y Parchg Tegid Roberts, ac yna am 4 p.m. gwasanaeth Gosber Cymraeg gyda phlant yr Ysgol Sul a'u hathrawon yn cymryd rhan. Y pregethwr gwadd oedd y Parchg Gordon Campbell Owen, Penrhosgarnedd a chafwyd pregeth rymus a chofiadwy ganddo.

Cafodd adeilad yr eglwys ei haddurno â blodau, llysiâu a ffrwythau o bob math fel ei fod yn werth ei weld. Dydd Llun, 19 Hydref, carwyd yr holl roddion hael i Neuadd

yr Eglwys i'w gwerthu mewn Ffair Cynhaeaf er budd Cronfa'r Eglwys ac eto cafwyd cefnogaeth dda gan y plwyfolion. Enillwyr y raffl, a drefnwyd gan Mr a Mrs Clifford Williams, oedd — 1, Mrs Beynon, Caernarfon; 2, Mrs Beryl Williams, Llanrug; 3, Mrs E. Owen, Caernarfon; 4, Mr Selwyn Griffith, Llanrug; 5, Ms Bradbury, Siop Gron, Penisarwaun. Enillwyr y raffl fawr oedd 1, Mr Harold Salisbury, Penisarwaun; 2, Mrs Janet Ash, Penisarwaun; 3, Mr Harold Salisbury, Penisarwaun; 4, Mrs Dilys Williams, Penisarwaun; 5, Gethin Phillips, Penisarwaun; 6, Mr Harold Salisbury, Penisarwaun; 6, Mrs Louise Evans, Penisarwaun.

Dymuna'r Parchg Tegid Roberts a swyddogion yr eglwys ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd roddion tuag at yr Wyl ac i bawb a gynorthwyodd mewn unrhyw fodd i wneud y cyfan yn llwyddiant.

PLYGU'R ECO. Diolch o galon i'r criw bychan ffyddlon a ddaeth i blygu'r Eco yn Neuadd Eglwys Santes Helen. Diolch hefyd i swyddogion yr eglwys am gael defnyddio'r Neuadd eto eleni.

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

LONDON GARAGE

FIAT CWM-Y-GLO FIAT

ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT



GORSAF PRAWF MOT
POB MÊC — CEIR A FANIAU BACH
GWASANAETH ac ATGYWEIRIO

CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD
GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234
neu Ffacs: (01286) 870066

AR AGOR:

Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.
Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00



SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

Twm Dydn

Diolch i Mr Hugh R. Jones, Llanberis am anfon yr ymateb hwn i erthygl a gyhoeddwyd yn y rhifyn diwethaf:

Wrth ddarllen yr erthygl 'Parchedig a'r Bêl Gron' gan Arwel Jones, yn cynnwys sylwadau gan Cledwyn Williams, yn yr *Eco* daeth yr hen amser yn ôl i mi.

Cofiaf mai yn Gadlys Cottage, Llanberis yr oedd Thomas Hughes a'r teulu yn byw, a bod Llew a Gwilym yn hogia clyfar iawn. Yr oeddwn wedi colli cysylltiad â'r hogia ers blynnyddoedd. 'Ddim yn pori yn yr un cae', fel y dywedir, ond roedd yn dda gennyf gael eu hanes unwaith eto.

Yr oeddwn yn gyfarwydd â Thomas Hughes, Twm Dydn, a da oedd cael darllen am darddiad yr enw hwnnw, iddo fyw yn Dutton Junction, a bod y Dutton wedi troi'n Dydn yn y chwarel.

Dreifar injan stêm oedd Thomas Hughes yn Chwarel Dinorwig, yn dreifio'r *Sybil*, *Jerry M* a'r *Cackler*. Yr oedd Thomas John Roberts a'r diweddar Gwyrfaï Thomas yn *stokers* iddo yn y cyfnod hwnnw.

Bu hefyd ar un o'r tair injan *Velinheli*, *Dinorwic* neu' *Amaleatha* oedd yn rhedeg rhwng y Gilfach Ddu a Phenscoins, Y Felinheli. Tra'n byw ym Methel byddai'n cerdded i Benscoins erbyn chwech o'r gloch y bore er mwyn cychwyn ei waith ac yna cerdded nôl gyda'r nos, rhyw filltir a hanner mae'n debyg.

Dyn gweddol dal ydoedd ac ysgafn o gorff. Roedd o'n sefyll a cherdded yn syth. Roedd ganddo fwstas, smociai getyn a gwisgai gap â'r pig yn isel ar ei dalcen gan guddio'i lygaid bron. Roedd golwg braidd yn sarrug arno ond nid un felly ydoedd o ran ei gymeriad 'chwaith. Roedd ganddo wybodaeth gyffredinol eang iawn ac yr oedd yn barod i roi cyngor doeth i'r hogia ifanc oedd yn ei gwmni.

Roedd gan rhai o'r dreifars feddwl mawr o'r injan stêm — digon tebyg i'r hwsmon efo'r

ceffyl gwedd — ac yr oedd y berthynas agos honno yn gwneud y gwaith yn llawer haws. Yn wir, roeddent fel pe'n siarad efo'r injan ac yn gofalu y byddai'n lân bob amser. Roedd y *Jerry M* yn batrwm o injan â'r darnau pres a chopr oedd arni yn sgleinio. Cofiaf bod un o'r dreifars yn dod a *Shino* o'i gartref i wneud y gwaith. Ond nid felly Twm Dydn. Er ei fod yn weithiwr cydwybodol iawn roedd ganddo fwy i'w ddweud wrth y *stokers*. Clywais ef yn dweud unwaith wrth un ohonynt oedd yn glanhau a polio'r injan, 'Paid â mynd i drafferth, Gwyrfaï bach, lwmp o haearn ydi hi.' Fuasai hi ddim yn talu i bawb fod yr un fath mae'n debyg.

Pob clod i Thomas Hughes a Mrs Hughes am yr ymdrech arbennig, ar gyflog digon bychan, i anfon Llew a Gwilym i'r coleg ac yn offeiriaid yn yr Eglwys yng Nghymru. Gwnaethant hwythau waith canmoladwy iawn.

HUGH R. JONES

Ail-agor Rheilffordd i Gaernarfon?

Gnaed cais gan Cwmni Tref Caernarfon i leoli Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru ar safle Doc Fictoria. Gwyddom bellach mai aflwyddiannus fu'r cais hwnnw, ond cytunodd Awdurdod Datblygu Cymru i ariannu cost astudiaeth ymarferoldeb i'r posibilrwydd o ail-agor y rheilffordd o Gaernarfon i Lanberis. (Y bwriad gwreiddiol oedd cysylltu'r ddwy amgueddfa.) Mae'n fwy na thebyg y bydd yr astudiaeth honno yn cael ei chario allan, ac y gwelir cynlluniau am lwybr y rheilffordd newydd yn y dyfodol agos.

Mae awgrym cryf wedi ei ddatgan y gallai'r rheilffordd hon ymuno â thrac Rheilffordd Llyn Padarn. Mae'n arwyddocaol hefyd fod lled rheiliau Rheilffordd Padarn yn union yr un faint â lled rheiliau Rheilffordd Caernarfon-Dinas. Oes posibilrwydd i'r ddwy

gyfarfod rywle yng nghyffiniau'r hen Bont Saint tybed? Diddorol hefyd yw tybio ble'n union y gallai hen drac y lein chwarel ymuno â hen drac 'y lein fawr'. Maent yn dilyn glannau gwahanol Afon Saint o Lanberis nes cyrraedd Pontrhythallt. Ond rhwng Pontrhythallt a Phont Cawia, does ond prin daflad carreg rhyngddynt. Mae'n ddiddorol nodi hefyd mai yn yr ardal hon roedd y bwriad gwreiddiol i Lôn Las Peris (y llwybr beics o Lanberis i Gaernarfon) symud oddi ar hen drac y lein chwarel i drac y 'lein fawr'. Ac ynghlwm â'r astudiaeth gan Awdurdod Datblygu Cymru, mae cais am sefydlu Llwybr Beicio a Llwybr Troed yn gyfochrog â'r rheilffordd. Pe bai'r holl syniadau yn cael eu gwireddu, byddai'n bosibl wedyn i deithio o Lanberis i Gaernarfon ar droed, ar feic neu ar drên.

DRAENOG



Ar drip i Carlisle roedd 'na boeni
Fod Draenog yn cyddio 'dan seti;
Er clustfeinio o hyd
Ddigwyddodd dim byd,
Ond . . .

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.



ORIEL CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

OSMOND SHAW
DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON
LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

Llythyr o'r America

Cambria P.O.
Wisconsin
Sep. 21st 1884

Anwyl frawd,

Derbyniais dy garedig lythyr wythnos i yforu, sef ar fore y Llun, ac nis gelli ddirnad pa mor falch yr oeddwn o'i dderbyniad, a deall trwyddo nad oedd dim anhapus wedi digwydd i'r un o honoch fel teulu. Yr hyn y beth y dylem fod yn dra diolchgar o'r herwydd, a cheisio cydnabod ein creawdwr, yn debyg i fel y mae Ef yn gwneud gyda ni hyd y gallwn, ac os bawn i'w treatio ef yn wahanol o fel ef yn wahanol o fel y mae ef gyda ni, nid oes dim i ni i'w ddisgwyl ond gwg ei wyneb arnom.

Yr oeddwn yn teimlo yn falch o glywed eich bod wedi cael Cymanfa mor nefolaidd yna, ac yr oeddwn yn teimlo dipyn yn chwithig na buaswn yn cael bod ynddi gyda chwi. Yr oeddwn yn deall fod yno rai o'r Yankies yn gwneud dipyn o fark, sef Llewelyn Evans. Y mae yma air da iawn iddo ef. Dyna dyn wedi bod yn gweithio wrth y mis, fel fy hunan pan yn fachgen mewn ffarm o'r enw Bodwrog, rhyw hanner milldir i mi.

Y mae Nell Roberts wedi ein gadael o Cambria yma, ac wedi myned at John ei brawd i Vt. Yr oedd yn cychwyn oddiyma bore dydd Iau, ac i fod yn cyrraedd Fair Haven 9 o'r gloch bore Sadwrn. Byddaf yn teimlo yn chwith iawn ar ol Nell, achos y byddwn yn cael llawer iawn o newyddion oddi yna ganddi, ac hefyd y byddai rhyw reswm ym mhob peth a ddywedai, ac nid fel Lizzie, fel plentyn saith mlwydd oed. Yr oedd Ellen wedi ennill serch pobl Cambria i gyd, a phawb yma yn rhoddi gair uchel iawn amdani, yn enwedig ei Mistress. Yr oedd wedi ennill safle pur uchel yn y capel. Yr oedd wedi cael ei chodi ers misoedd ar Stage y capel fel un o'r Choir yn debyg i yn debyg i fel oeddynt yn C Coch pan oeddwn i yno. Yr oedd yn un o'r rhai goreu oedd yno. Bu yn canu mewn Concert yma yr wythnos o'r blaen. 'Old Folks Concert' oeddynt yn ei law, yn cael ei gario ymlaen yn yr hen ddull. Fe ganodd Nell 'Hen Ffon fy Nain' yn dda iawn. Yr wyf yn meddwl y buasai yn well iddi o ran ei hiechyd yn y West yma, ond credaf fod yn well iddi o ran ei phoced fyned yno, oni buasai yn aros yn Milwaukee neu Chicago. Y dywid yw fod yn yr East well le i ferched gweini nag yma, ond eithrio y ddwy dref yma, y ddwy oreu yn y wlad.

Y mae yn resyn fawr na buasai Lizzie yn edrych ychydig ar ol ei hunan yn y wlad yma. Buasai yn well o lawer iddi fod yna, ond gan ei bod fel y mae buasai yn drugaredd o'r mwyaf iddi fod erioed heb weled ein tir, ac y mae yn rhaid iddi wella o honi ei hunain, achos pa fwyaf a ddywed eraill wrthi mwyaf ffol y mae yn myned. Y mae yn ffolach a mwy anwybodus heddyw na'r diwrnod cyntaf y daeth yma.

Bu Bennett yma am 10 diwrnod, ac aeth yn ol gydag Ellen dydd Iau. Credaf y bydd yn ennill mawr i Bennett fod wedi cael ymwarded a'i chartref, achos y mae wedi taro ar well lle na'i chartref mewn llawer iawn o ystyrau. Yr oedd pawb yma yn hoffi dull Bennett rhagor Lizzie, ond yr oedd yn ddigon call i actio dipyn o lady pan yn visitio o gwmpas o gwmpas y teulu, ac nid fel Lizzie yn 'Real country Lump' (chwedl Ellen). Dyna oedd esboniad Ellen am dani, ac un da ydoedd.

Yr oeddwn yn falch o gael gweld Bennett yma, oherwydd y rheswm y buaswn yn ofni i'r perthynasau yr ochr yma ymfalchio, a meddwl ynddynt eu hunain fod llawer o ffyliaid tebyg i Lizzie yr ochr yna, ond cawsant eu siomi dipyn o hyn wrth gyferbynu dwy chwaer.

Ni bum erioed mewn mantais o gael gwybod dim am Bennett trwyddaf fy hunan pan yna, ond yn awr yr wyf yn gwybod ac wedi sylwi yn fanwl iawn ar lawer o bethau tra y bu yma. Yr wyf yn coelio, fel tithau, mae diffyg addysg deuluidd oedd llawer iawn o achos ei bod fel yr oeddynt yna, ond fod yr ychydig amser bu Btt yn aros yn Caernarvon wedi gwneud daioni mawr iddi, fel yr oedd dweud ei hunan. Y mae pawb yn tystio mae geneth fach 'Smart' ydyw. Y mae ganddi le da iawn yn Milwaukee. Y mae yn cael 2 dollar yr wythnos i ddechreu, ac wedi cael gwerth arian lawer o ddilladau gan Mrs Powell. Clywais lawer yn son am Mrs Powell er pan wyf yma, ac yn dweud mae Lady i'r pen draw ydyw, ac yr oedd Bennett yn dweud wrthyf fi, ei bod am geisio ei phlesio can gystal ag y gallai, ai bod wedi ffeiddio at ddull Lizzie yma yn hollol, a gobeithio ei bod hefyd, onide? Wel dyna ddigon ar hynna, os digon yw llawer.

Gobeithio dy fod wedi cael taith cysurus iawn yn ol a blaen i wlad y Gwyddel yna. Byddaf yn disgwyl hanes dy daith yn gyflawn iawn achos fe roddais hanes fy nhaith fy hunan mor gyflawn ag oedd modd o dan yr amgylchiadau, a thrwy hynny yr wy'n disgwyl y teli yn ol i

minnau, ond gobeithio na bydd gennynt lawer yno yn actio yn debyg i 'Gwen y Forwyn' tuag attat. Gobeithio y caiff John Ty Capel ac Evan a Bob Parry wybodd yn helaeth trwy brofiad, peth mor dost yw 'ymarllwysiad i fyny y cylla'. Yr wyt ti yn cofio yn dda cymmaint oedd y llawenydd yn y Sinc Bach pan oedd W. Owen Pentre Castell yn darllen llythyr oddiwrth D. Jones, ac yn hysbysu ynddo y fath gyfaill fynwesol oeddwn gyda'r gweinidog Pabaidd hwnnw. Cofia di ddweud hanes Dublin mor agos ag y gelli wrthyf.

Yr oeddwn wedi meddwl ysgrifennu at Nain heddiw, ond yr aeth yn rhy hwyr i mi allu gwneud cyn myned i'r ysgol. Cofia fi atti yn arw iawn, a M. Evans hefyd, ac hefyd nad wyf wedi ei anghofio fel y mae hi yn meddwl mae'n debyg. Na, y mae ei anghofio yn beth amhosibl i mi. Pa hyd etto mae yn rhaid i mi ddisgwyl am ddarlun o Mam a Nhad tybed. Byddaf yn eu disgwyl gyda phob llythyr. Ni wiw iddynt ddweud nad ydynt mewn

chance iw dynu. Beth pe baent fel myfi yn gorfod ridio mewn sleigh am 20 milldir ar ddiwrnod oerach na welodd neb sydd yn fawr yng Nghymru. Rwy'n sicr o'i dynu, er mwyn cael ei anfon yna i chwi.

Pe buaswn yn gallu buaswn yn ysgrifennu yn fuan i lawer o'r hen gyfeillion, ond ceisiaf ddiwallu angen rhai o honynt mor fuan ag y gallaf, a cheisiaf gofio am fy nheulu fy hun yn gyntaf oll.

Beth yw yr achos fod Lizzie wedi arafu cymaint ar ei hysgrifennu attaf. A wyt ti yn meddwl fod Lizzie P Coch a Janet wedi tantro dipyn wrthyf. Joke oedd y cyfan yn fy meddwl i.

Cofia ysgrifennu mor aml ac y gelli. Felly terfynaf a chofia am beidio disgwyl llythyr tan y 'tro nesaf'!

Ydwyf dy frawd,

OWEN W. ROWLANDS
Hafod, Llanbeirs

o nage! Cambria Wisconsin.

DRAENOG

Fel arfer, y gwyn gan deithwyr yw fod y trên neu'r bws yn hwyr yn cyrraedd. Ond mae un cwmni bysus o'r fro yn cynnig gwasanaeth hynod ac unigryw — un y gellid yn hawdd ei fabwysiadu gan gwmnïau mwyaf y wlad. Penodwyd dreifar go arbennig i ofalu fod y trefniadau bob amser yn berffaith. Cymaint yw sêl y dreifar hwn i'r polisi unigryw fel ei fod o'i hun yn gofalu am rai teithiau — yn enwedig tripliau wedi eu trefnu gan bobl o ardaloedd eraill. Dyna, mae'n debyg, pam iddo gyrraedd Llanllechid ddeuddeg awr — ia,

deuddeg awr — o flaen ei amser er gwneud yn siŵr na fyddai pobl y pentref hwnnw yn gorfod disgwyl un eiliad yn hwy nag y dylent am eu bws. Trueni fod sŵn y bws am bump o'r gloch y bore (yn hytrach na phump yr hwyr) wedi styrbio cryn dipyn ar greaduriaid cysglyd y pentref; a bod ambell un yn Llanllechid a Deiniolen wedi cael eu deffro mor gynnar gan y dreifar a oedd yn methu'n lân a deall pam nad oedd neb yn disgwyl amdano, ac yntau wedi gorfod torri'n fyr ei ymarfer côr y noson cynt er mwyn codi'n ddigon cynnar drannoeth.



ELLIS WYN

SIOP Y BARBWR, CAERNARFON . . .

- Rŵan wedi ailagor yn YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PLAS, CAERNARFON
- Hefyd yn galw yn eich cartref
- Ffoniwch am apwyntiad

678963 (GARTREF) 0411 457215 (SYMUDOL)

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Trin Traed Gwartheg



'Crush' pwrpasol gan W.O.P.A.

Ar gyfer buwch neu darw

Hefyd:

Ymgymeryr â shafio gwartheg
tew

Dylan Roberts

Penllech Bach, Tudweiliog, Pwllheli

(01758) 770279 : symudol 0421 956143

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

GARTREF O'R YSBYTY. Croeso gartref o'r ysbty i Manon Jones, 11 Tref Eilian; Mr O. T. Jones, Bryn Gwenallt; Mr Glyn Owen, Glan Gors; Mr Richard Rowlands, Bryn Golau; a Mr John Elwyn Roberts, Bro Waun. Gobeithiwn yn fawr eich bod yn gwela ac yn cryfhau.

Mae Mrs K. Jones, Gorwel yn gwella wedi iddi gael triniaeth i'w llygaid yn Ysbty Gwynedd.

CYDYMDEIMLO. Cydymdeimlwn yn fawr â Bryn Jones, Haulfryn yn ei brofedigaeth o golli ei fam, Mrs Ann Jones o Gaernarfon. Cydymdeimlwn hefyd â Mr Eurwyn Williams, Parc yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer.

LLONGYFARCHIADAU. Bu Derfel Parry, Bryn Llywelyn yn dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed; Mr Glyn Owen yn dathlu cyrraedd ei 80 oed; a Mrs Jones, Pant yn cyrraedd ei 96 mlwydd oed. Dymuniadau da i'r tri ohonoch.

GENEDIGAETH. Ganwyd merch fach i Eirian ac Allan, 2 Ael-y-bryn, chwaer fach i Dilwyn, Diane, Elen a Caryl.

Ganwyd merch fach, Lucy, i Siân a Graham, Penant, Stad Bod Hyfryd, chwaer fach i Katie ac ail wyres i Mr a Mrs G. Davies, Dôl gwyrfa. Llongyfarchiadau i'r teuluoedd a chroeso i'r ddwy fach.

DIOLCHGARWCH. Bu plant y ddwy Ysgol Sul yn cymryd rhan yng ngwasanaethau Diolchgarwch y capeli. Llongyfarchiadau iddynt ar wneud eu gwaith mor dda a diolch i'r rhai a fu'n eu paratoi.

ARAFU'R DRAFNIDIAETH. Mae'r Cynghorydd Eurig Wyn wedi cysylltu ag Adran Briffyrdd Gwynedd i ddiolch am eu cydweithrediad i osod rhwystrau arafu trafniadaeth trwy bentref Waunfawr. Gobeithir gosod arwyddion 'Waunfawr - gyrrwch yn ofalus' yn y dyfodol agos.

Mae'r Cynghorydd hefyd wedi gofyn i'r heddlu arolygu sefyllfa gyrru cyflym trwy bentrefi Betws Garmon a Rhyd-ddu. Dywedodd fod y sefyllfa yno wedi dirywio'n arw yn ddiweddar ac mae'n pwysu ar i'r gyrrwyr yrru'n ofalu trwy'r pentrefi hyn.

DIOLCH. Dymuna Eurwyn a Pearl, Parc, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn a'r cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli chwaer a chwaer

yng nghyfraith, sef Mrs Ann Jones, 4 Stryd Eleanor, Caernarfon.

NOFIO NODDEDIG. Cynhaliwyd Nofio Noddedig yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon ar Hydref 17, er budd Clwb Pêl-droed Ieuencid y pentref. Mwynhaodd pawb eu hunain a diolchir am haelioni ein noddwyr.

ADFYWIO BRO

Erbyn hyn mae mwyafrif helaeth o'r holiaduron wedi eu dychwelyd a'r cam nesaf fydd bwydo'r holl wybodaeth i'r cyfrifiadur er mwyn cael ei brosesu a chreu adroddiad. Mae'r arolwg yn gyfle gwych i drigolion Waunfawr a Chaeathro gynnig eu syniadau am ddyfodol eu bro a diddorol fydd pori drwy'r sylwadau. Gwyliwch y golofn yma am ddatblygiadau!

Mae ymhell dros flwyddyn ers sefydlu'r Gwasanaeth Adfywio Bro yng Ngwynedd ac yn ystod y cyfnod yma mae nifer o ymholiadau a syniadau cyffrous wedi cyrraedd Swyddfa Adfywio Bro Gwyrfa. Cofiwch os ydych chi angen arweiniad ynglŷn â datblygu cynllun cymunedol, neu am gael sgwrs gyffredinol, mae croeso i chi gysylltu ag Eirian Pierce Jones, Swyddog Adfywio Bro Gwyrfa ar (01286) 650779 neu galwch i'w gweld yn ei swyddfa yng Nghanolfan Gymunedol Waunfawr. I'ch atgoffa chi unwaith eto mae plwyfi Betws Garmon, Waunfawr, Bontnewydd, Llanwnda a Llandwrog ym mro Gwyrfa, felly cofiwch wneud y mwyafrif o'ch Gwasanaeth Adfywio Bro a sefydlwyd gan Gyngor Gwynedd gydag arian Ewropeaidd.

TREM YN ÔL

Rwy'n cofio llafur mawr fy Nhad,
Yn y pum degau yn y wlad
Fe godai gyda cloc y wawr
I ddringo i bonc y chwarel fawr.

Agorai hollt y garreg las
I'r Stiward Mawr yr oedd fel gwas;
Pladuriai wair y rhostir cras
A'i gludo'n y drol i'r das.

Golchai'r defaid er mwyn cael pris;
A mynd am 'stem' at Tomos Rees;
Tinc gwellifiau, a sgwrs drwy'r dydd
Pawb yn llawen a neb yn brudd.

Noswyliai'n yr hwyr a bwrw'r draul
A'r chwys yn llifo ar ei ael;
Gwely a gwaith a gorffwys bach
I gadw'i gorff yn gryf ac iach.

Gwaith mor galed, ond eto'n hwyl,
Fel dathlu'r 'Dolig neu hen wyl;
Hen ddyddiau difyr, pell cefn gwlad
A llafur dynion ddoe mor rhad.

JOHN V. MORRIS, Clwt y Bont

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

GENEDIGAETH. Dymuna Nia (Chwiban y Gwynt gynt) a Garry ddiolch i bawb am eu dymuniadau da a'r cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth eu merch Sioned Angharad.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Tachwedd:

1: Parchg W. R. Williams (2)

8: Mr Richard Jones (2)
15: Parchg W. R. Williams (2)
22: Parchg Iorwerth Jones Owen (2)

29: Parchg Gwynfor Williams (5.30)
PLYGU'R ECO. Braint darllenwyr Eco'r Wyddfa yng Nghaeathro fydd plygu'r Eco ar nos Iau, 26 Tachwedd a hynny yng Nghlwb Glangwna o 5.30 p.m. ymlaen. Croeso i bawb!

CYNGOR CYMUNED. Oherwydd y weithred o fflachio goleuadau gan yrwyr i yrwyr eraill, i'w rhybuddio wrth iddynt nesau at yr offer mesur cyflymdra trafniadaeth, cyfartaledd cyflymdra'r drafnidiaeth drwy'r pentref yn ystod yr arolwg diwethaf oedd 31 milltir yr awr. Dyna wyddoniaeth y teclyn! Felly, mae'r Cyngor Cymuned wedi gofyn i'r heddlu a Chyngor Gwynedd i ailosod y teclyn mewn lle heb fod mor amlwg i yrwyr di-ofal. Yn ogystal, gobeithir codi arwydd, 'Gyrrwch yn Ofalus' ar leoliad yr arwyddion 30 m.y.a. newydd. A fydd y drafnidiaeth yn arafu wedyn tybed?

Rhoddyd cymorth o £100 at gostau'r Gymdeithas Cae Chwarae. Nid oedd unrhyw gais oddi wrth unrhyw fudiad arall sy'n gwasanaethu'r ardal, e.e. mynwent y Capel, Ysgol Feithrin Bontnewydd, neu gyfeillion Ysgol Gynradd Bontnewydd. Y cyfle nesaf fydd mis Mawrth!

Rhoddyd cefnogaeth i gais cynllunio codi byngalo a garej ar y llain adeiladu gyferbyn a Bodawel. Cefnogol oedd ymateb y Cyngor i'r bwriad o ddynodi'r llwybr trwy Caerhydhan a Buarthau fel Lôn Las. Siomedig oedd ymateb y Syrferwr i'r cais i dorri'r coed ger y gyffordd rhwng hen ffordd Pontrug er mwyn gwella'r weledd ar y groesffordd ac oni fydd y toriad arfaethedig yn datrys y perygl fe geisiaf am gyfarfod ar y safle. Cefnogwyd cais manwl gan Mr J. E. Dyson am fyngalo a garej ar lain y fynwent, drws nesaf i Bodawel.

DIOLCHIADAU. Dymuna Dwynwen a Gwilym Griffiths, Llys Menai ddiolch yn gynnes i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar dathlu eu Priodas Ddiemwnt yn ddiweddar. Y DYNFA FISOL. Enillwyr mis Hydref oedd: £40 S. E. Evans, 21 Glan Gwna (44); £25 Siobhan, Cefn Gof (80); £15 S. Bullock, 11 Glan Gwna (81); £5 R. M. Roberts, 9 Bryn Gof. CYFARFOD BLYNYDDOL. Cynhelir cyfarfod cyffredinol blynyddol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro yn y pafiliwn ar y cae chwarae am 8 p.m. nos Lun, 16 Tachwedd. yn ogystal â'r materion pwysig arferol bydd rhaid trafod statws gyfreithiol ymddiriedolwyr y Cae Chwarae, ymddiriedolwyr ar gyfer y llecyn chwarae ar gyfer y plant lleiaf a rheolaeth y llecyn chwarae wedi i Gyngor Gwynedd gwblhau'r gwaith. SGIP CYMUNEDOL. Disgwylir sgipiau cymunedol Cyngor Gwynedd yn y pentref yn ystod yr wythnos 9 Tachwedd ymlaen.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI
CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



CRONFA'R SEFYDLIAD
COFFA, LLANRUG

TOMBOLA

PRIF WOB:

TWRCI NADOLIG



LLU O WOBRAU ERAILL
YSGOL GYNRADD
LLANRUG
NOS FERCHER
4 TACHWEDD 1998

am 7.00 p.m.
DEWCH YN LLU I GEFNOGI

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PROFEDIGAETH. Yn dawel yn yr ysbyty wedi gwaeldd blin bu farw Mr Leonard Parry, Hebron. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w briod Mrs Beryl Parry a'i chwaer Mrs Jennie May Parry yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

UNDEB Y MAMAU. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parchg Philip Hughes yn Hafan Elan, Llanrug nos Iau, Hydref 8. Gan nad oedd materion i'w trafod pasiwyd i ddarllen cofnodion o'r ddau gyfarfod diwethaf yn y Cyfarfod Blynnyddol a gynhelir nos Iau, Tachwedd 12. Mrs Sandra Hughes a Miss Meira Williams oedd yn gofalu am y lluniaeth. Enillwyd y raffl gan Mrs M. Latham. Diolchwyd i'r Rheithor ac i'r gwesteion gan Mrs Latham. Terfynwyd y cyfarfod gyda gweddi. DIOLCH. Dymuna Mr Dafydd Price, Tan-y-graig ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdeithion am y llu galwadau ffôn, cardiau, anrhegion ac ymweliadau a dderbyniodd yn yr ysbyty ac wedi iddo ddod gartref. Diolch yn fawr i bawb.

NEWYDDION O'R YSGOL. Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Mr Sam Jones, gŵr Rhian Jones ein gofalwraig. Roedd Mr Jones yn ŵr tawel a bonheddig ac yn berson hoffus dros ben. Mawr fu ei gymwynas i ni fel staff a phlant a bydd bwch enfawr ar ei ôl ar yr aelwyd ym Mron Eryri, yma yn yr ysgol ac yn y pentref yn gyffredinol. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Jones, Islwyn a'i briod Beryl, Medi a'i phriod Gareth, a Mrs Owen ei fam yng nghyfraith. Cofiw'n hefyd am y plantos Karl, Craig, Kerry, Chelsea, Dewi a John oedd yn meddwl y byd o'u taid. Anfonwn ein cofion anwyllaf atoch fel teulu a diolch am y fraint o gael adnabod Mr Jones.

Cafodd Bl. 5 a 6 gyfle i ymweld â Chanolfan Dechnoleg Cynnal yn Llangefni fel rhan o gynllun hybu'r gweithgareddau yno. Cawsant brofiadau diddorol iawn yn yr ystafell Electroneg a chyfle wedyn i weithio gyda robotiaid a gwahanol raglenni cyfrifiadurol. Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr ac yn ddiolchgar iawn i Merfyn Lewis ac Aled am arwain y gweithgareddau.

O'r oes fodern hon fe gamodd yr un plant yn ôl i'r gorffennol pell drwy ymweld â Chaer Rhufeinig

Segontiw a threulio bore difyr yno yn ceisio dychmygu'r bywyd yn y gaer. Roedd gwisgoedd milwyr yno ar eu cyfer ynghyd â'r helmedau a'r cleddyfau. Roeddem yn falch iawn o gyrraedd yn ôl i gynhesrwydd yr ysgol!

Fel rhan o'u gwaith ar ofalu am anifeiliaid aeth y Babanod i Fferm y Foel ar Ynys Môn. Cawsant ddiwrnod heulog a hwyliog yno ac roedd nifer ohonynt yn cysgu'n drwm ar y bws ar y ffordd adref. Diolch i Delyth a Meinir am ddod i helpu'r athrawon gyda'r plant bach.

I gloi'r hanner tymor cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch yn yr ysgol gyda'n rhoddion ariannol eleni yn cael eu cyflwyno i'r NSPCC. Daeth Sara Owen i siarad am ei gwaith gyda'r mudiad. Gwnaeth i ni sylweddoli pa mor druenus yw bywyd pa mor werthfawr yw gwaith y gymdeithas hon. Bydd modd cyfrannu i'r casgliad tan ddiwedd y mis os dymunwch.

Aeth gwobrau Clwb yr Ysgol am fis Medi i ddau o Gwm-y-glo - Mr Ted Roberts, Bod Gwilym a Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD. Nos Iau, Hydref 8fed, cynhaliwyd cyfarfod olaf tymor 1998 o'r Gymdeithas yn y Ffestri. Cadeirydd y noson oedd Einir Gwyn, Gwêl Elidir ac roedd y defosiwn o dan ofal Mrs Jennie Roberts, 2 Ffrwd Madog a balch oedd gan y Cadeirydd ei chroesawu a dymuno llwyr wellhad iddi ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwyd cofion y Gymdeithas hefyd at Mrs M. Closs Parry, Bryniol.

Y siaradwr gwadd oedd y Parchg Huw John Hughes, Porthaethwy a chafwyd noson arbennig yn ei gwmni yn cyflwyno nifer o brofiadau cofiadwy a chwbl unigryw a ddaeth i'w ran dan y teitl, 'Chwerw a Melys'.

Diolchwyd iddo am sgwrs oedd yn fwynhad pur ac yn glo mor ardderchog i weithgareddau'r tymor gan Mrs Verna Jones, Meillionen. Trefnwyd y lluniaeth gan Mrs Dilys Jones, Cytir a Mrs Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed.

Yn ystod mis Medi, dan nawdd y Gymdeithas, casglwyd y swm o £62.50 tuag at waith Cymdeithas y Beiblau a gwnaed elw sylweddol tuat

at waith yr Ysgol Sul trwy werthiant cardiau Nadolig y Cyngor Ysgolion Sul i aelodau a charedigion.

Dymuna'r ysgrifennydd ddiolch i bawb am eu parodrwydd i gymryd rhan yn y gwahanol ddyletswyddau yn ystod y cyfarfodydd eleni - y cyfan yn gyfraniad at lwyddiant tymor arall yng ngweithgareddau'r Gymdeithas.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Gareth Wyn Jones, Fferm Pen-llyn ar enedigaeth eu mab bychan, Gethin, ddydd Sadwrn, Hydref 17eg.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Nos Lun, Hydref 19eg, cyfarfu'r gangen yn y Ffestri. Darllenwyd llythyr y mis gan y llywydd, Mrs Pat Jones. Cydymdeimlwyd â Mrs Eleanor Jones, yr ysgrifennyddes, yn ei phrofedigaeth ddiweddar o golli ei mam. Yn dilyn, croesawyd y wraig wadd am y noson, sef Mrs Nerys Roberts, Caernarfon. Pleser oedd ei chroesawu'n ôl i'w bro lle'i magwyd a phrofi o'i dawn gwaith croesbwyth. Cafodd yr aelodau gyfle i werthfawrogi nifer helaeth o enghreifftiau amrywiol o'i gwaith cywain, mwynhau ei chyflwyniad ar ei dull o weithio a than ei harweiniad roi cynnig ar greu darn o waith croesbwyth eu hunain. Diolchwyd iddi am noson ddiddorol a chartrefol gan Mrs Lowri Roberts Williams. Paratowyd y banded gan Mrs Ifanwy Jones a Mrs Helen Morris.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Tachwedd 16eg. Gofynnir i'r aelodau ymgynnull am 6.30 o'r gloch i drafod rhai materion cyn y Cyfarfod Blynnydd fydd yn dilyn. EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn oedfaon mis Tachwedd. Bydd yr oedfaon am 5.30 o'r gloch.

1: Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon.
8: Mr John Hugh Hughes, Llanberis
15: Mr Ifan Hefin Williams, Caernarfon
22: Mr John McBride, Porthaethwy
29: Mr R. Lloyd Jones, Bethel

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant yn rhoi gwerth eich arian.

Cartref a Chynnwys
Teithio • Car
Anifail Anwes
Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales)
Enterprises Limited
Ffordd Santes Helen
Caernarfon
Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE
Concern

INSURANCE
SERVICES

All our profits support the work of Age Concern

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

GWYNANT
PIERCE

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

SPAR

Y STORFA
LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

CHWARAEON

Bodlon o'r diwedd

Mae'n siŵr mai fi yw'r unig golofnydd chwaraeon na fu'n llenwi colofnau yn corddi'r ddadl ynglŷn â dyfodol Bobby Gould. Nid wyf yn ddigon o dechnegydd pêl-droed i weld beth yw ei wendidau ar y lefel uchaf. Ond un peth sy'n amlwg yw bod y 'cythraul' wedi dychwelyd i dîm Cymru yn y gemau yn erbyn Denmarc a Belarus. Nid ydym yn ceisio bod yr hyn nad ydym. Rhaid creu system o gwmpas y chwaraewyr sydd gennym yn hytrach na chael rhyw gynllun delfrydol. Roedd yn braf gweld bod safon y croesi wedi gwella a gweld y blaenwyr yn symud ymlaen i 'ymosod' ar y bêl. Mwynhawn y cyfnod hwn - bu'n

hir iawn yn dod. Arhoswn yn eiddgar am fis Mawrth. Yn realistig, oni fyddai dwy gêm gyfartal yn y Swistir a Belarus yn gampus? Yna llenwi Anfield ym mis Mehefin ar gyfer y gêm olaf 'gartref' yn erbyn Denmarc. Gyda llaw, credaf ei bod yn fantais i Gymru bod y gêm yn erbyn Belarus wedi'i chwarae ar Barc Ninian lle cafwyd gwir gefnogaeth ac awyrgylch oedd yn creu cyffro. Yn sicr mae yna le o hyd i Barc Ninian a'r Cae Ras ar ei newydd wedd yn nyfodol pêl-droed rhyngwladol. Gan fod rhaid cael dadl ym mhêl-droed Cymru, oes yna le i Giggs, Harton a Speed yn y tîm ar gyfer y gêm nesaf?



Mae tîm newydd, sy'n gymysgfa o brofiad ac oedran, wedi ei ffurfio yn yr ardal. Tîm Glyntwrog yw'r babi newydd ac mae'n chwarae yn nhrydedd adran Cynghrair Sul Gogledd Gwynedd a Môn. Cafwyd dechrau da i'r tymor ac mae'r tîm yn

ail yn y gynghrair ar hyn o bryd, chwe phwynt ar ôl Moelfe Breeze. Gobeithio bod digon o anadl yn ysgyfaint y babi newydd i'w chwythu i'r ail adran erbyn y tymor nesaf.

Noddwyr Newydd Llanrug



Alan Jones, capten Llanrug, yn derbyn crysau a siacedi ymarfer a roddwyd i'r tîm gan dafarn Penbont a siop y Golden Cod.

FFAIR GAELAF
 ANGUEDDFA LECHI CYMRU
 LLANBERIS
TACHWEDD 28 & 29 '98
 1 - 5 PM

Sion Corn yn ei 'grotto' / gweithgareddau / diddanwr plant /
 dweud stori / paentio gwynebau / castell sboncen / caffîr Ffowntan
 DISGWNT O 10% AR NEWYDDAU'R SIOP I BOBOL LLEOL


... RHYWBETH I BAWB ...

Bistro
 LLANBERIS
 Ffôn: 871278
 PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS
LLE DA I WLEDDA
 Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70) i
 ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas.
 Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.
 Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro nos Wener
 olaf bob mis

J.M. JONES
 A'I FEIBION
 GWAITH
 CERRIG
 BEDDAU

**Y SGWÂR
 LLANRUG**
 Crefftwyr gwaith
 llaw traddodiadol
 Cerrig o bob
 math ar gael
 Ffôn: (01286)
 672898 (dydd)
 676285 (nos)

CROESAIR TACHWEDD



ENW _____

CYFEIRIAD _____

AR DRAWS

1. Dichellion poced heb fod yn llawn gan hon (8)
5. 10 (3,4)
10. Difyrwch traddodiadol y Cymry (5,5)
11. Parlysu gan ofn (5)
12. Rhan ymadrodd yn dynodi bod neu weithred (4)
13. Yr hyn a wna casgen wrth fynd i lawr yr allt (6)
14. Ergydio (4)
16. Anifeiliaid chwimwth sy'n byw ar waed (5)
17. Y meddiant oedd yn nwylo Dei ddoe (4)
20. Gwastraffus (4)
21. Gall hon 13 ar draws hefyd (5)
23. 5 (4)
24. Gall diod o'r math hwn achosi pobl i 13 ar draws! (6)
25. Mae'r Sais yn ddwl pan mae'n brifo! (4)
29. Dyma sawl 23 ar draws oedd mewn 27 i lawr (5)
30. Ysmaliwr (10)
31. Gwneud swm fel cloch (7)
32. Creigiau (8)

I LAWR

1. 12½ (6,5)
2. Diddanydd, un gwael oedd gan Job yn ôl yr hanes (7)
3. Pethau melys neu flasus (10)
4. Offer i lyfnu cae wedi ei droi (4)
6. Nifer o weithwyr wedi ymuno â'i gilydd i amddiffyn eu buddiannau (5)
7. Un o bobol Daniel Owen (3,5)
8. Gwrtaith (4)
9. Perarogl (7)
15. Clefydau (11)
18. 50 (8)
19. Y cyflwr o fethu gweld (7)
22. Un sy'n gwarchod (7)
26. Fel y gwna wyneb y môr (5)
27. 100 (4)
28. Gwynt ysgafn (4)

ATEBION CROESAIR HYDREF

Diolch am atebion i groesair Hydref gan Ceridwen Williams a Dorothy Jones, Llanrug; Olwen Owen, Moreen Lennon a Nan Owen, Llanberis; Mair Evans, Iorwerth a Jean Williams, Caernarfon; Elfed Evans, Llanllechid; Mary Davies, Waunfawr; E. E. Jones, Rhoshir-waun; Olwen Jones, Bethel; Jean Hughes-Jones a Catherine A. Jones, Rhiw; E. Jones, Pencaenewydd; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Hywel Griffith, Awstralia; Mair Foulkes, Penisarwaun; N. Hughes, Cwm-y-glo; M. P. Jones, Jennie Williams a Rhiannon Pritchard-Jones, Clynog; Eirwen Roberts a Rosemary Williams, Tregarth; Mabel Parry, Porthmadog; Nansi Davies, Rhuthun; Megan Wyn Jones a G. Gill, Bangor. Ymgais Nan Owen, 8 Rhes Efrog, Llanberis a dynnwyd o'r het. Longyfarchiadau a £5 i chi, Nan.

Ar ôl cwblhau Croesair Tachwedd gyrrwch eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon LL55 3HE erbyn Tachwedd 16, os gwelwch yn dda.



Cefnogwch ein Hysbysebwy

DYDDIADUR MIS TACHWEDD

- 1 - 29 **LLANBERIS:** Amgueddfa Lechi Cymru — arddangosfa gan Alan Carr am Ddyffryn Nantlle.
2. **Llun** **DEINIOLEN:** Cymdeithas Cyfeillion yr Eglwys yn cyfarfod yn Eglwys Llandinorwig.
3. **Mawrth** **PENISARWAUN:** Yr Urdd am 6 o'r gloch yn y Ganolfan.
4. **Mercher** **LLANRUG:** Tombola yn yr Ysgol Gynradd.
5. **Iau** **DEINIOLEN:** Cyfarfod yn Ebeneser am 10.30 i gyfarfod y Parchedig H. Sankuma.
DINORWIG: Y Gymdeithas Lenyddol — sgwrs gan y Parchg Iorwerth Jones Owen.
DEINIOLEN: Cyfarfod y Chwirydd yn Ebeneser am 2.
6. **Gwener** **BETHEL:** Arddangosfa Celf a Chrefft y Eisteddfod.
7. **Sadwrn** **WAUNFAWR:** Eisteddfod y pentref
BETHEL: Eisteddfod y pentref.
9. **Llun** **DEINIOLEN:** Y Cyngor Eglwysi am 7 yng Nghefnywaun.
10. **Mawrth** **LLANRUG:** Merched y Wawr — noson o gerddoriaeth draddodiadol.
11. **Mercher** **PENISARWAUN:** Sgwrs am grochenwaith Gaudi Welsh gan Mr Bryn Griffiths yn Neuadd Eglwys Santes Helen am 7.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.
BETHEL: Merched y Wawr — brethyn cartref.
12. **Iau** **CWM-Y-GLO:** Cyfarfod blynyddol Undeb y Mamau.
16. **Llun** **DEINIOLEN:** Merched y Wawr — 'Hanes y Fodrwy'
CAEATHRO: Cyfarfod cyffredinol Cymdeithas y Cae Chwarae.
BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched am 6.30 p.m.
17. **Mawrth** **BETHEL:** Y Gymdeithas Lenyddol gyda Mr Gwilym Owen.
18. **Mercher** **LLANRUG:** Plaid Cymru — sgwrs gan Arwel Jones yng Nghanolfan Penisarwaun.
19. **Iau** **DINORWIG:** Y Gymdeithas Lenyddol — sgwrs gan Mr E. Gray Thomas.
22. **Llun** **DEINIOLEN:** Y Gymdeithas Lenyddol.
26. **Iau** **CAEATHRO:** Plygu'r Eco.
28. **Sadwrn** **LLANBERIS:** Ffair Aeaf yn yr Amgueddfa o 1 tan 5 o'r gloch.
29. **Sul**

MIS RHAGFYR

4. **Gwener** **DEINIOLEN:** Ffair Nadolig yn Ysgol Gwaun Gynfi.
6. **Sul** **YR ARDAL:** Merched y Wawr — gwasanaeth Carolau 'Cadwyn y Nadolig' yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon am 8 o'r gloch.
11. **Gwener** **WAUNFAWR:** Ffair Nadolig yn y Ganolfan.

TREFNIADAU CYHOEDDI'R ECO DROS WYL Y NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD

RHIFYN RHAGFYR
copi: 16 Tachwedd
o'r Wasg: 26 Tachwedd
RHIFYN IONAWR 1999
copi: 7 Rhagfyr
o'r Wasg: 17 Rhagfyr

RHOIDDION

£10: Mr a Mrs John Bunnan, Afallon, Dinorwig.
£5: Mr a Mrs Eurwyn Williams, Parc, Waunfawr. Anwen ac Arwel Hughes.
£3: Jean Roberts, Tai Croesion, Penisarwaun. Elizabeth ac Eric Jones, 17 Bryntirion, Penisarwaun. Gwyneth Jones, 25 Bryntirion, Penisarwaun.
£2: Mrs Gloria Pitts, Glan'rafon, Llanberis. Marina a Gwilym, Pros Kairon, Ffordd Deiniol, Deiniolen.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



Uned 1A BRYNAFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 674100 (dydd)
(01286) 650732 (fin nos)
FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS

CHWARAEON

'SYR' CENEDLAETHOL

Curo'r drws.

'Dydy'n nhw ddim yn y tŷ!'

'Nhw' yw Ifan (oedd yn chwarae tenis) ac Elin (oedd yn y pwll nofio).

'Chdi dwi isio'i weld.'

(Ydw, rydw i'n cyfweld pobl yn y swydd yma!)

'Chdi' ydi Dafydd Owen — neu Dafydd Mona — rheolwr tîm o dan 15 Ysgolion Cymru. Wrthi'n parataoi a hel ei bac roedd Dafydd gan ei fod ef a'r tîm yn hedfan i Ogledd Iwerddon i wynebu'r Gwyddelod yn Ballymena — gêm efallai i rai ohonoch ei gweld ar deledu lloeren. Cafodd Dafydd gryn sylw yn ystod gêm Cymru yn erbyn y Saeson ar y Cae Ras. Roedd Cymru ar y blaen o 2 i 0 ond yna daeth cryfder y Saeson i'r amlwg gan ennill 4-2. Serch hynny cafodd Dafydd gryn ganmoliaeth am ei baratoi trylwyr a phêl-droed addawol gan y tîm. Fel pob rheolwr rhyng-wladol mae pwysau i ennill ond eto cadw'r cydbwysedd o gofio mai bechgyn ifanc iawn sydd yma, yn chwarae ar feysydd eang dan lygad y camera. Tipyn o fraint ond hefyd tipyn o bwysau.

Athro yn Ysgol Glan-y-môr, Pwllheli ydi Dafydd. Yn Fonwysyn o Lannerchymedd a ddaeth i sylw ein bro fel rheolwr llwyddiannus Llanrug. Gyda'i gynorthwy-ydd, Howyn Jones, creodd dîm o bêl-droedwyr da ac yn sicr, gyda chefnogaeth frwd y pwyllgor gweithgar, cymerodd y clwb gamau breision ymlaen.

Ar lefel ysgolion Cymru fe fu Dafydd yn ddewiswr am bedair blynedd. Nid yw ei swydd yn gwbl gaeth i'r oedran o dan 15 oed. Y mae angen, wrth gwrs, nodi datblygiad chwaraewyr o 13-15. Wedi'r gêm



olaf yn y gyfres Tarian Victory eleni (yn erbyn yr Alban yn Airdrie) bydd Dafydd a'i dîm cefnogol yn canolbwyntio ar y garfan dan 14 fydd yn ffurfio cnewyllyn y garfan genedlaethol y tymor nesaf.

Braint yw cynrychioli eich gwlad ar unrhyw lefel. Yn naturiol mae ennill cap ysgolion ymysg yr un anoddaf gan fod mwy o chwaraewyr yn yr oedran yma. Llwybr anodd a hir felly sy'n wynebu'r chwaraewyr cyn cyrraedd y tîm terfynol. Mae'r dewis terfynol yn bwysig o safwbwynt arall hefyd. O oedran 16 ymlaen daw tîmau Cymru o dan adain yr FA a

NEWID ER GWELL

Mae sôn y bydd newidiadau mawr ym mhêl-droed Gogledd Cymru yn ystod y tymhorau nesaf yma. Mae'n ymddangos nad oes system pyramid yn bodoli yng Nghymru. Mae rhai tîmau yn fodlon cyrraedd rhyw safon

arbennig ac aros ar y lefel honno. Ac mae gofyn rhoi sylw i sefyllfa ail dimau'r clybiau. Mae ail dîm Caernarfon, er enghraifft, yng Nghyngrair Arfon tra fo'r tîm cyntaf yn y Gyngrair Genedlaethol. Sut gall hyn arwain at ddatblygiad o'r naill dîm i'r llall? Mor chwith yw geld Dyffryn Nantlle — tîm Freddie Pye ac Orig gynt — yng Nghyngrair Arfon. Rwyf yn cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig. Bwriedir ail-wampio cynghreiriau'r Gogledd fel bod tîmau'r Fitlock a thîmau gorau'r Gwynedd yn ffurfio Prif Adran (Premier). Byddai gweddill tîmau'r Gwynedd a chynghreiriau Môn, Arfon a Chonwy yn ffurfio ryw dair adran arall yn ôl eu safon. A safon yw'r gair allweddol. Heb os nhid oes dyfnder safon yn ein hardal ar hyn o bryd. Dan y drefn newydd teimlaf y byddai y chwaraewyr gorau yn anelu at y brig a bydd mwy o gyfle i'r ieuencid i ddydsu eu crefft yn yr adrannau is. Efallai hefyd y bydd cyfle i'r clybiau edrych yn ofalus ar yr arian 'gwirion' a delir i rai chwaraewyr am gyflawni dim yn nhermau datblygiad y clwb. Mae pob newid yn *change* — tybed?

DRAENOG



Clywais fod tîm Deiniolen yn ddistaw iawn ar y cae yn ddiweddar. Y si ydi bod y tîm yn cydymdeimlo â'r rheolwr sy'n cael trafferth cadw'n effro — codi yn y nos, ac yn y blaen. Llongyfarchiadau RJ, a chroeso i'r byd mawr i Ryan. Gobeithio y byddi mor llwyddiannus a thalentog â'h gyd-enw. Gyda llaw, da iawn Deiniolen — ar frig Cyngrair Gwynedd ar hyn o bryd, a Llanrug — sydd â gemau wrth gefn — yn sicr yn y ras.

**COFIWCH ANFON
EICH STRAEON I'R
GOLYGYDD CHWARAEON**

CAEL AC ENNILL



Un agwedd bwysig ar fy ngwaith fel golygydd chwaraeon yw cael canmol haelioni yr ardal. Nid oes gormodedd o gyfoeth yma, ond mae digon o barodrwydd i ymestyn cymorth i ieuencid y fro. Un o'r ffyrdd mwyaf poblogaidd o wneud hynny yw darparu citiau pêl-droed. Mae tîm dan 9 oed Bethel wedi elwa'n ddiweddar trwy haelioni un o 'gymeriadau' pêl-droed yr ardal. Bu Dic Roberts yn chwarae (a chicio weithiau!) i nifer o dimau lleol. Yr oedd yn hoff iawn o'i bêl-droed nes i'w yrfa ddod i ben wedi iddo dorri'i goes tra'n chwarae i Fethel yng Nghyngrair Arfon. Erbyn hyn Dic yw perchennog Sgaffaldiau Bethel — y

Dic Sgaffaldiau gwreiddiol! Cyflwynodd y dillad i hogia Bethel, sydd dan ofal Maldwyn Hughes ac Alwynne Jones. Dillad smart iawn a'r hogia wrth eu bodd. Fel y dywedodd un o'm cynreolwyr wrthyf unwaith, 'Os wyt ti'n edrych fel pêl-droediwr mae gennyf ti obaith i fod yn bêl-droediwr'.

Nid oes cyngrair swyddogol i'r tîmau dan 9 oed o dan drefniant Cyngrair Gwyrfa. Er hynny cynhelir gemau rheolaidd a chafwyd Gŵyl Bêl-droed Undydd yn ddiweddar. Enillwyd y gystadleuaeth gan dîm Bethel a chyflwynwyd cwpan hardd Cwmni Rheilffordd Ucheldir Cymru i'r tîm.

dyna gychwyn y daith — 18, — 21, ac yna'r tîm llawn. Mae'n bwysig fod y goreuon wedi eu darganfod gan griw Dafydd.

I'r sawl sy'n ei adnabod, dyn tawel, cadarn yw Dafydd. Mae'n drefnydd da a chando syniadaeth dda am ddulliau chwarae. Mae'n sicr fod polisi pendant clwb Llanrug o ddatblygu chwaraewyr ifanc wrth ei fodd. Dyn y tracwrig yw Dafydd ac ymfalchiwn fel ardal yn y fraint arukthrol yma a ddaeth i'w ran. Ef fydd wrth y llyw, gobeithio, yn nhymor y mileniwm pan fydd llawer o gemau rhyng-wladol a gwyliau pêl-droed wedi eu trefnu.

Mae ambell chwaraewr addawol yn y cylch yma ar hyn o bryd. Bu'n well na chwarae'n lleol, dan reolaeth rheolwr lleol. Da iawn, Dafydd, dal ymlaen i roi'r plant yma ar yr ysgol a fydd yn eu harwain, gobeithio, i flynyddoedd o lwyddiant i dîm pêl-droed Cymru.

Sori, Elin ac Ifan, Dad sy'n haeddu'r sylw y tro hwn!



Mae'r wên ar wynebau'r criw yma yn dangos eu bod wrth eu bodd yn chwarae pêl-droed. Gwobr felly am wên y mis i griw dan 9 oed Llanrug a'u rheolwr David Phillips. Tynnwyd y llun ar ôl gêm yn erbyn Bethel.